# Y DINESYDD

Mehefin 2022 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 469 £1.20




**Dyfodol disglair i gricedwr ifanc lleol**
**tud. 19**

**Edrych ymlaen i Tafwyl**
**tud. 24**

**Caerdydd 152,000 o flynyddoedd yn ôl**
**tud. 4/5**

**Llwyddiannau Ysgol Plasmawr**
**tud. 22/23**



# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Miranda Morton**

***Golygydd Gorffennaf / Awst***
***Wyn Mears***

Cyfraniadau erbyn 27 Mehefin at:
wyn@wynmears.com
13 Mayfair Drive, Y Ddraenen,
Caerdydd, CF14 9EN
029 20758726 / 07837 991189

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau at:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


# Apêl am Wirfoddolwyr Tafwyl

Mae Tafwyl yn dychwelyd i fod yn ŵyl ar raddfa eang eleni ac rydym yn disgwyl hyd at 40,000 o ymwelwyr i Gastell Caerdydd ar 18 a 19 Mehefin. Er mwyn cynnal dathliad mor fawr o'r Gymraeg yng Nghaerdydd, mae angen hyd at 150 o wirfoddolwyr i helpu gyda stiwardio a thasgau eraill. Os ydych yn awyddus i fod yn rhan o'r cyffro a'r bwrlwm gwerthfawrogwn yn fawr petai modd i chi e-bostio Prif Swyddog Tafwyl - caryl@mentercaerdydd.cymru - neu ffonio swyddfa'r Fenter ar 029 2034 6214.

Bydd bob stiward yn derbyn tocyn bwyd a chroeso enfawr gan y tîm!




## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd y Castell
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY**, Rhiwbeina

# Colofn G.R.



*"Ystyried geiriau Dr Jac L. Williams"*

Mae cân gron ar gael sy'n dweud "Daw hyfryd fis Mehefin cyn bo hir/a chlywir y gwcw'n canu'n braf yn ein tir" ac yn wir erbyn i'r golofn hon weld golau dydd bydd hi'n fis Mehefin a ninnau wedyn hanner ffordd drwy 2022! Byddai llawer yn dweud bod yr amser yn pasio fel y gwynt ond yn ôl hen ddywediad "Hed amser; na, erys amser - dyn â"! Dwy heb glywed sŵn y gog eto yn fy maestref deiliog ond yn sicr mae'r haf wedi cyrraedd â llawer o bobl yn trefnu gwyliau am y tro cyntaf ers y clo mawr. Bydd llawer ohonoch siŵr o fod yn trefnu mynd i'r "Genedlaethol" yn Nhregaron ar ddechrau Awst cyn crwydro ymhellach!

Mae Llwybr Arfordir Cymru yn dathlu deng mlwyddiant ei fodolaeth eleni ac mae'r llwybr wedi denu pobl o bell ac agos dros y cyfnod hwn i fwynhau amrywiaeth o olygfeydd bendigedig wrth ei dramwyo. Mae'r llwybr yn ymestyn bron 900 milltir mae'n debyg a felly mae angen tipyn o egni a nerth i gyflawni'r gamp o gerdded ar ei hyd!

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol hefyd yn dathlu ei deng mlwyddiant eleni. Mae'r Coleg yn gyfrifol am drefnu amrywiol bynciau i'w hastudio drwy'r Gymraeg ym Mhrifysgolion ein gwlad ac erbyn hyn mae'r Coleg yn dechrau rhoi sylw i'r colegau Addysg Bellach ac ati sy'n golygu bydd llawer o ieuenctid ein gwlad â chyfle i astudio pynciau ymarferol drwy'r Gymraeg yn y colegau hynny, am y tro cyntaf yn aml.

Flynyddoedd lawer yn ôl bellach bu Mudiad Adfer yn cymell siaradwyr Cymraeg yn nwyrain y wlad i ymfudo i'r gorllewin i amddiffyn a chryfhau'r iaith yn y parthau hynny gan adael y dwyrain yn ddiamddiffyn. Odd y syniad hwn ddim wrth fodd y diweddar Dr Jac L. Williams ac odd o'n pwysleisio bod angen amddiffyn yr iaith hyd at ffiniau'r wlad a byddai encilio i'r gorllewin yn gam gwag.

Byddai Dr Jac L. wedi bod wrth ei fodd pan agorwyd Ysgol Gymraeg yng Nghil y Coed yn Sir Fynwy a'i henwi yn Ysgol y Ffin, odd yn llythrennol ar y ffin. Bu ymgyrchu brwd i sefydlu'r ysgol hon ac on i'n bresennol yn Siambr Cyngor Sir Fynwy yng Nghwmbrân pan bleidleisiodd y Cynghorwyr yn unfrydol i ganiatáu agor yr ysgol hon. Bu gorfoleddu a dagrau o lawenydd yn oriel gyhoeddus y Siambr y diwrnod hwnnw gan yr holl rieni a chefnogwyr odd yn bresennol.

Ces i fy atgoffa o'r hyn a ddigwyddodd yn achos sefydlu Ysgol y Ffin pan welais i eitem ar raglen *Heno* ar S4C yn ddiweddar yn dangos Cylch Meithrin Trefynwy sy eto ar y ffin a gobaith y rhieni yw y bydd Cyngor Sir Fynwy yn agor Ysgol Gymraeg yn y dre hon a hynny'n fuan a thrwy hynny amddiffyn y ffin unwaith eto. Pob llwyddiant iddyn nhw.

Wel, mae holl hŵ-ha yr ymgyrchu ar gyfer cynnal yr etholiadau lleol ar ben am bum mlynedd arall ac ar y cyfan mae pob plaid ond un yn hapus gyda'r canlyniadau! Trodd y gorllewin yn wyrdd gyda Phlaid Cymru yn ben ym Môn, Gwynedd, Ceredigion a Chaerfyrddin ac etholwyd naw aelod o Blaid Cymru ar Gyngor Wrecsam sy eto yn agos at y ffin rhwng Cymru a Lloegr.

Mae llwyddiant tîm pêl-droed Wrecsam wedi dwyn enwogrwydd i'r dre ers i ddau actor o'r Unol Daleithiau brynu'r Clwb ac mae'r torfeydd wedi dychwelyd i'r Cae Ras i gefnogi'r tîm sy wedi cael tymor llwyddiannus hyd yn hyn. Felly, mae Wrecsam nid yn unig yn enwog am ei lager ond hefyd am ei phêl-droed bellach!

Bydd Mudiad Yes Cymru yn ailgydio mewn gorymdeithio eleni wedi saib o ddwy flynedd oherwydd y firws ac felly ar ôl trefnu gorymdeithiau banerog a hwyliog a hynod lwyddiannus yng Nghaerdydd, Caernarfon a Merthyr, tro Wrecsam fydd hi nesa a hynny ar 2 Gorffennaf pan ddisgwylir miloedd yno i gefnogi'r achos.

Eto ar ôl saib o ddwy flynedd oherwydd y firws, mae'r Cyngor Prydeinig yng Nghymru yn hysbysebu am dri athro/tiwtor i fynd i ddysgu Cymraeg yn y Wladfa ym Mhatagonia. Mae'r Wladfa yn 157 oed bellach ac mae'r Cynllun Dysgu Cymraeg yno wedi bod yn hynod o lwyddiannus. Bellach mae tair ysgol Gymraeg/Sbaeneg ar agor hefo dwy yn Nyffryn Camwy a'r drydedd yn yr Andes. Ar un adeg Ysgol Gymraeg Llundain odd yr unig Ysgol Gymraeg yn y byd y tu allan i Gymru ond rŵan mae pedair Ysgol Gymraeg y tu allan i Gymru yn chwifio'r Ddraig Goch!

Tybed faint ohonoch chi ddarllenwyr y golofn hon fyddai'n gwybod arwyddocâd bathodyn lliw oren ar siâp coma ar label côt neu ar stribed o gwmpas gwddw'r person? Mae'r bathodyn hwn yn dynodi bod y person yn gallu siarad Cymraeg ac yn eich gwahodd i gyfathrebu â'r person yn Gymraeg. Dwy'n credu bod angen rhoi mwy o sylw a chyhoeddusrwydd i'r syniad hwn er mwyn lledaenu defnydd o'r iaith ym mywyd cyhoeddus ein gwlad. Felly, cadwch eich llygaid ar agor led y pen ac edrychwch am y bathodyn hwn lliw oren ar siâp coma er mwyn rhoi hwb bach i'r iaith wrth gyfathrebu yn Gymraeg â'r person sy'n ei wisgo.

Mwynhewch heulwen yr haf a byddwch lawen gan fod bywyd yn dechrau dod nôl i'r drefn arferol wedi blynyddoedd blin a diflas.

# Colofn Natur



## *Caerdydd y Pleistosen*

**Gethin Jenkins-Jones**

Mae ein taith drwy hanes pell Caerdydd dros y misoedd diwethaf wedi bod yn antur hynod o hwyliog i mi (a gobeithio i chi hefyd!), a chyda'n gilydd rydym wedi gweld dwsinau o anifeiliaid rhyfeddol, hardd, ac anghyfarwydd. Bellach 'mond 152,000 o flynyddoedd (dau drip) sydd ar ôl o'n taith, ond i mi, y cyfnod nesaf yw'r un yr wyf yn fwyaf cyffrous i ymweld â hi. Oes yr Iâ! (neu yn fwy cywir - y Pleistosen!)

Gan gychwyn 2.58 miliwn o flynyddoedd yn ôl, lledaenodd blancedi trwchus o iâ dros gyfandiroedd gogleddol y byd, gan adael Ewrop, Asia a Gogledd America mewn cyfnodau iasol o oer. Fel tician rheolaidd metronom, bob rhyw 100,000 o flynyddoedd, dychwelodd cyfnodau byr o hinsawdd dwymach ond, yn gyffredinol, roedd mwyafrif o ogledd y byd yn lle heriol a chaled i fyw ynddi. Collodd Ewrop dros hanner ei mamaliaid pan ddaeth y rhew yn ogystal â llawer o'i hadar a'i hamffibiaid. Ond mae gwydnwch natur mor anhygoel â'i phrydferthwch, a gwelwyd ecosystemau bioamrywiol newydd. Esblygodd y goroeswyr addasiadau i ddelio â'r oerfel, fel cotiau ffwr trwchus, haenau o fraster, a'r gallu i aeafgysgu neu i fudo. Mae ein holl rywogaethau presennol yn oroeswyr o Oes yr Iâ, oherwydd daeth y cyfnod i ben 'mond 11,700 o flynyddoedd yn ôl ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, gwelwyd epa newydd o genws *Homo* yn nwyrain Affrica am y tro cyntaf.

Heddiw rydym am fynd 152,000 o flynyddoedd yn ôl, at un o adegau oeraf y cyfnod. Wrth gerdded allan o'r peiriant amser mae ton fawr o oerfel yn ein taro, ac mae'r amodau rhewllyd i'w teimlo yn syth ar ein ffroenau. (Gwell i ni wisgo sgarff!) Mae'n ganol bore, ac mae'r haul yn tywynnu'n llachar mewn awyr las, ddigwmwl. Gyda chymaint o ddŵr ffres y byd wedi'i gloi yn y rhewlifoedd, roedd hinsawdd Oes yr Iâ yn llawer mwy sych na mae llawer yn tybio. Er hynny, mae 'na haen denau o eira o'n cwmpas sydd wedi cwympo yn gymharol ddiweddar, ac mae adlewyrchiad yr haul oddi arni yn ein hannog i gymryd ein sbectol haul o'n bagiau. Mae'n nodweddiadol o dawel heddiw. Rydym mewn coedwig agored o sbriws a phinwydd ac, am y tro, 'mond sŵn gwichian y coed yn suo yn yr awel glywn ni. Yng ngwledydd y de y mae'r rhan fwyaf o'n hadar cyfarwydd, yn aros i'r amodau dwymo cyn dychwelyd unwaith yn rhagor. Ond mae llawer o anifeiliaid anhygoel yma heddiw, felly awn ni i grwydro.

Rydym yn clywed sŵn trotian carnau yn nesáu, a gwelwn haid o sawl dwsin o geirw Llychlyn yn rhedeg heibio ryw gan metr i ffwrdd. Tybed beth achosodd iddynt ddychryn? Heb os, mae sawl ysglyfaethwr o gwmpas i gadw'r anifeiliaid yma'n wyliadwrus. Ar y gair, mae udo hir, disgynnol blaidd i'w glywed gerllaw sydd, mae'n siŵr, ymhlith grŵp ohonynt. Ond nid oes rhaid i ni boeni ryw lawer. Mae sawl rhywogaeth hynafol o'r genws *Homo* wedi mynd a dod o Brydain dros y filiwn o flynyddoedd diwethaf, ac mae bleiddiaid bellach yn gwybod i gadw draw oddi wrthon ni. Ein diwylliant modern o straeon anonest sydd ar fai am lunio agwedd atgas cymdeithas tuag at yr anifeiliaid hyn heddiw. Yn fuan gwelwn chwech ohonynt yn cerdded tuag at gyfeiriad y ceirw. Byddant yn eu hasesu am gyfnod i ddarganfod y rhai gwanaf yn eu plith i'w targedu.


Mae'r goedwig yn teneuo i gynefin mwy agored, ac yn y pellter mae siâp bryn cyfarwydd yn dod i'r golwg - dyma le fydd Castell Coch yn cael ei adeiladu. Er yn gudd tu ôl y gorwel, ychydig o filltiroedd i'r gogledd, mae ochrau deheuol y llen iâ sy'n gorchuddio'r tir dan gannoedd o fetrau o iâ. Ni fydd y llen hon, fodd bynnag, yn ymestyn ryw lawer dros y blynyddoedd nesaf. Mewn 'mond 25,000 o flynyddoedd bydd yr iâ yn toddi am ychydig a bydd amodau twym yn dychwelyd am gyfnod byr (lleoliad ein trip olaf, fis nesaf!). Ond tan hynny, prif gynefin safle dyfodol Caerdydd yw'r paith (*steppe*), lle rydym erbyn hyn. Cynefin o laswellt eang yw'r paith, er mai dim ond hanner talaf y gwair sydd i'w weld dros yr eira heddiw. Wrth gerdded ymlaen clywn grawcian pâr o gigfrain uwch ein pennau, ac mae ein presenoldeb yn achosi i grŵp o rugieir gwyn (*ptarmigan*) i godi i'r awyr. Gyda phlu hollol wyn am y rhan fwyaf o'r flwyddyn, mae eu cuddliw yn anhygoel, ac maent yn hollol gartrefol yn yr hinsawdd hon. Heddiw ym Mhrydain mae'n rhaid dringo i dop mynyddoedd uchaf yr Alban i'w gweld.



***Grugiar wen***

***Llun: Laura Giles***


Mae paith yn gynefin agored iawn, felly nid oes angen cerdded yn bell i weld beth sydd yma. Cyn i ni hyd yn oed gychwyn sganio drwy ein binocwlar rydym yn gallu gweld teulu o famothiaid yn y pellter yn defnyddio eu trynciau hir i symud yr eira i fwydo ar y gwair. Mae hanner dwsin ohonynt yma, gan gynnwys babi gymharol ifanc, ac mae'r oedolion yn galw ato'n llym pan mae'n crwydro'n rhy bell ohonynt. Mae'n fendigedig i'w gweld nhw, anifeiliaid mwyaf eiconig Oes yr Iâ. Maent yn bwysig iawn i'r ecosystem hefyd. Mae eu carthion yn ffrwythloni'r tir, sy'n helpu'r blodau i dyfu yn ystod yr haf byr, a thrwy bori maent yn sicrhau nad yw'r coed sbriws yn medru dominyddu'r dirwedd.




Mae sawl anifail nodweddiadol arall y cyfnod o'n blaenau hefyd. Mae 'na bâr o reinosoriaid gwlanog yn pori, â'u maint a'u siâp fel rheinosoriaid modern ond efo cot ffwr frown tebyg i'r mamoth. Mae 'na hefyd haid fawr o fuail (*bison*) - bwystfilod mwy o lawer o'u cymharu â rhai heddiw - ac mae eu cyrn hir troellog yn edrych yn enwedig o beryglus. 'Nôl yn Oes yr Iâ roedd modd gweld yr anifeiliaid hyn ar draws y byd - o Gymru i Fecsico (roedd Asia a Gogledd America wedi'u cysylltu am y tro gan dir oherwydd y cwymp yn lefel y môr). Nid ydynt heb elynion, fodd bynnag. Yn y cynefin yma heddiw bydd llewod yn eu gwylio, ac yn yr haf mae'n debyg y bydd Neanderthaliaid yn dod yma i'w targedu hefyd. Rhain yw'r unig rywogaeth o *Homo* yn Ewrop yn yr amser hwn, wedi bodoli yma am bron i chwarter miliwn o flynyddoedd. Ond roedd eu poblogaeth drwy'r cyfnod hwnnw yn rhyfeddol o fach - erioed yn fwy na hanner poblogaeth Caerdydd ar draws Ewrop i gyd. Ond roeddynt â'r gallu i ladd creaduriaid mwyaf yr oes. Wrth edrych ar faint yr holl anifeiliaid o'n blaenau, dwi ddim yn meddwl y byddai'r rhan fwyaf ohonom yn awyddus i'w herio!




Unwaith eto mae'r afon Taf o fewn taith gerdded. Mae'n llawer mwy cul yn y cyfnod hwn, a gallwn weld bod peth ohoni wedi ei rhewi. Gwelwn Fronwen y Dŵr yn bobio lan a lawr ar un o'r creigiau. Mae'r adar hyn yn hynod o wydn, ond yn gadael eu hafonydd os ydynt wedi'u rhewi'n gyfan gwbl. Mae'n enghraifft neis nad oes rhaid i greadur fod yn enfawr i ymdopi â chaledi'r hinsawdd. Mae 'na oroeswyr o bob maint o'n hamgylch, a byddwn yn gweld mwy ohonynt eto ar ein trip olaf fis nesaf.




Felly pam ydw i'n hoff iawn o'r Pleistosen? Yn wir, mae amodau ein hymweliad heddiw wedi bod yn llawer mwy heriol na chyfnodau o gynhesrwydd ein tripiau eraill. Ond mae 'na sawl ateb i'r cwestiwn. Dwi'n hoff o'r cyfnod hwn gan ei fod yn cynnwys anifeiliaid trawiadol iawn - fel y mamothiaid – ond, yn bwysicach na hynny, rydym yn gwybod cymaint mwy am yr anifeiliaid hyn a'u hecoleg nag anifeiliaid cyfnodau eraill. Drwy edrych ar gyfansoddiad eu hesgyrn, gallwn weld beth oedd yr anifeiliaid yma'n ei fwyta, lle roeddent yn byw a'u rôl yn ecosystemau'r cyfnod hwn. Oherwydd hynny, gallaf werthfawrogi'r anifeiliaid hyn yn well o lawer, yn ogystal â chau fy llygaid a meddwl amdanynt â darlun mwy clir. A lleoliad ein trip nesaf - cyfnod twym byr a fu yn ystod y Pleistosen a gychwynnodd 130,000 o flynyddoedd yn ôl - yw'r amser dwi'n breuddwydio amdano fwyaf!

# DATHLU'R 50

**Ym mis Ebrill 2023 fe fydd *Y Dinesydd* yn 50 mlwydd oed ac mae'r pwyllgor yn awyddus i ddathlu'r achlysur.**

**Byddwn yn sefyldu gweithgor fel y gallwn ddathlu'r digwyddiad yma. Os oes unrhyw un ohonoch chi'r darllenwyr am fod yn rhan o'r gweithgor cysylltwch ag eirianagwilym@gmail.com**

# Bwytai Merch y Ddinas



## "Cinio i'r Brenin"

**Lowri Haf**

Wel yn wir. Am gorwynt o fis. Er i mi dreulio'r rhan helaeth o Ebrill wedi fy llorio gan glefyd COVID, treuliais y rhan fwyaf o fis Mai - rhwng gwyliau a gwaith - ym mhobman ond Caerdydd. Rhyfedd ynte sut mae hynny'n gallu digwydd… ond fe wnaeth les i weld llefydd eraill. Canolfan Tŷ Newydd Llanystumdwy ddaeth gyntaf, yng nghwmni Manon Steffan Ros a Llwyd Owen. Cwrs gwych – ewch, da chi, os gewch gyfle. Yna gwyliau i Baris. Trefniant munud olaf, wrth weld 'ffenestr o gyfle' yn fy nyddiadur. Hen beth cas yw COVID am chwarae gyda'r meddwl, peri blinder, a thanseilio'r hunan-hyder. Ond un peth da am gael eich heintio yw'r rhyddid i deithio heb orfod poeni am ei ddal e eto, am gyfnod.



Mr Cooke

Ond wedi dwy flynedd o beidio teithio, dechreuais fecso am 'logistics' mentro; yr holl giwio a biwrocratiaeth, gwaith papur a thrafnidiaeth. Ac wedi bron i dair blynedd o wneud cymwynas â'r amgylchedd, teimlais yn wael am hedfan ar awyren unwaith eto. Mynegais hyn wrth ffrind sydd â theulu ym Merlin, gan ddweud nad o'n i'n hoffi'r teimlad bod rhaid 'dianc' i ddod 'nôl at fy nghoed. 'Na', medde yntau, 'nid dianc wyt ti wrth deithio, ond cwrdd â ti dy hun unwaith eto.' A wyddoch chi beth? Roedd e yn llygaid ei le. O'r eiliad yr esgynnais i'r awyr uwchlaw y Rhws, fe deimlais fy hun yn ymlacio.

Roedd Paris yn hudolus. Ac fe wnes i bopeth ro'n i wedi'i ddymuno. Cael eistedd mewn caffi ar y Boulevard Saint-Germain yn yfed coffi wrth wylio'r byd yn mynd heibio. Edmygu lilis dŵr Monet yn y Musée de l'Orangerie, a sawru'r machlud ger Notre Dame. Mwynhau sawl picnic yng ngerddi Tuileries, a champweithiau celf y Musée d'Orsay. Roedd arogl mwg sigaréts ym mhobman, dim gair o Saesneg i'w glywed yn unman, a chwistrellwyd egni haul y gwanwyn yn syth i 'ngwythiennau. Dewisais seigiau i fwyta na cheir eu gweini'n aml yma – *steak tartare* yn Brasserie Lipp a phlatiad o *foie gras* yn Les Deux Magots.

Rhaid dweud, gwnaeth y penwythnos les anferthol - gwledd i'r enaid a gwyliau i gofio. A diolch byth! Oherwydd 'mynd mynd mynd' yw fy hanes byth ers hynny, wrth i waith a phleser fy nenu ledled Cymru. Sgiwen, Llanelli, Llanbedr Pont Steffan, Aberteifi, Machynlleth, Dolgellau, y Bala, Bethesda, Bodelwyddan a Bae Colwyn. A Glyn-nedd! Taith gwaith i Geredigion sydd ar y gweill gen i ym Mehefin, heb sôn am drip i Ddulyn!

Felly beth am Gaerdydd, a'i bwytai brith? Wel mae gen i un argymhelliad – ac un uchelgais at y dyfodol agos, pan ga i gyfle i oedi! Yn gyntaf, rhwng popeth, ces bleser cwmni fy nhad wrth ddathlu ei ben-blwydd ar ddiwedd mis Ebrill. Ro'n i'n *gutted* i golli'r parti swyddogol gyda'm chwiorydd yn Pasture, yn ystod yr wythnos pan ges fy heintio gan COVID. Wrth lwc, fe fwynhaodd Dad y profiad hwnnw gymaint, roedd ar ben ei ddigon pan awgrymais ail ymweliad. *Steakhouse* annibynnol o Fryste yw Pasture a leolir nid nepell o'r castell yng nghanol y ddinas. Agorwyd bwyty cyntaf Pasture ychydig ddyddiau cyn dechrau'r pandemig, a sefydlwyd cangen Caerdydd ym mis Hydref 2020, gwta chwe mis wedi hynny.

Pwyslais y bwyty yw gweini cynnyrch rhagorol – gan gynnwys cig eidion o fferm Pasture yng Ngwlad yr Haf a chynnyrch lleol Cymreig o'r safon orau. Fel un



sy'n caru Asador 44 ar Stryd y Cei, ro'n i'n reit gyndyn o gefnogi cystadleuydd o Loegr. Ond teg dweud fod y ddau *steakhouse* yn cynnig profiadau gwahanol – er fod safon bwyd y ddau le cystal â'i gilydd. Tra fod Asador 44 yn fwy cynnil a chwaethus, mae Pasture yn fwy poblogaidd ei apêl. Eisteddai pobol o bob oed o'n cwmpas ganol yr wythnos, gan gynnwys babanod, mamau ifainc a phensiynwyr ariannog. Sylwais yn syth ar y gerddoriaeth egnïol a chwaraeodd o'r uchelseinydd, ond nid amharu wnaeth hynny ar y sgwrs, ond ychwanegu at yr awyrgylch.



Archebwyd syrlwyn eidion yr un, sglodion cloron (*truffle*) ardderchog, a gratin cabaets oedd mor flasus fel 'mod i'n benderfynol o'i ail-greu fy hun. Bendigedig. Ar ben hynny, cawsom lasied o win coch Merlot yr un – a chwisgi (Talisker) a choctel (French 75) i gychwyn. Teg fyddai dweud i'r bil gostio can punt – sy'n adlewyrchu'r achlysur arbennig. Nid bob dydd mae eich tad yn dathlu ei ben-blwydd! Dilynwyd hynny gan baned a chacen goffi a chnau Ffrengig yng nghaffi Crumbs yn arcêd Morgan, yng nghwmni annisgwyl ond hynod bleserus Hywel Gwynfryn! Braf iawn oedd cael rhoi'r byd yn ei le yng nghwmni dau sy'n byw yn y ddinas ers dros hanner canrif.

Be nesa te? Cyfeiriais yn gynharach at fwyty dinesig sy'n bendant ar fy rhestr, un rwy'n benderfynol o'i flaenoriaethu'n fuan – felly dyma'ch cyfle i achub y blaen arna i! Ar ganol yr holl ffwdan am jiwbilî'r frenhines, mae 'na un man sy'n hedfan baner Cymru â chryn falchder ers misoedd lawer. *Steakhouse* arall yw hwnnw, o'r enw Da Iawn, a leolir rhwng Sushi Life a'r Pear Tree ar Heol Wellfield. Wrth i sawl Jac yr Undeb ymddangos mewn ffenestri busnesau cyfagos, galwais i fewn i Da Iawn i ddiolch yn fawr iddynt am eu safiad hwythau, gan addo trefnu ymweliad yn fuan. Wedi'r holl deithio gwirion edrychaf ymlaen at brofiad lleol – un sy'n annhebygol iawn o droi fy stumog.

Pasture, 8-10 Stryd Fawr Caerdydd CF10 1BB; 07511217422
*Bwytai Cymru* a *Canllaw Bach Caerdydd* gan Lowri Haf Cooke (Gwasg Gomer), £9.99 yr un

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Nos Lun, 16 Mai croesawyd pawb i'r cyfarfod gan ein Cadeirydd Shirley Williams, a gyflwynodd ein siaradwr am y noson sef Dean Powell o Lantrisant.



*Janet Poulson (chwith) yn diolch i Dean Powell a'i gydweithiwr am eu cyflwyniad*

Yn ei chyflwyniad nododd fod Dean yn frodor o Lantrisant ac yn ystod ei yrfa fel newyddiadurwr bu'n gweithio i'r BBC ac HTV, yn ogystal â bod yn awdur toreithiog. Mae ganddo gryn brofiad fel cyflwynydd hefyd ac ef a fu'n cyflwyno seremoni Canmlwyddiant y Cofio yng Nghoed Mamets yn y Somme.

Roedd ei sgwrs yn ddifyr iawn gan nodi hanes a datblygiad Llantrisant fel tref dros yr wyth canrif diwethaf, o ddylanwad y Normaniaid, datblygiadau crefyddol, hyd at y Dr William Price. Soniodd yn ogystal am bwysigrwydd y Rhyddfreinwyr a'r Comin. Mae'r Comin bellach yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig oherwydd presenoldeb planhigion prin yno, gan nad oes defaid wedi pori yno, dim ond gwartheg a cheffylau. Anogodd y gynulleidfa i ymweld â'r dref, yn enwedig â Neuadd y Dref sy'n cynnwys arddangosfa ddiddorol o hanes Llantrisant, sy'n ganolfan bywiog, ac yn rhan bwysig o'i fywyd ef a'i gydweithwyr.

Diolchwyd i Dean ar ein rhan gan Judith Poulson a gwerthfawrogwyd ei gyflwyniad a'i hiwmor. Atgoffwyd pawb am ein cyfarfod nesaf ar 20 Mehefin - yr un ffurfiol olaf o'r tymor – pan fydd Vaughan Roderick o'r BBC yn sgwrsio.

# Merched y Wawr Caerdydd

Braf oedd cynnal ein cyfarfod blynyddol wyneb yn wyneb eleni gan nodi iddi fod yn flwyddyn lwyddiannus i'r gangen er gwaethaf heriau COVID. Mae nifer yr aelodau wedi parhau yn sefydlog a chafwyd cefnogaeth deilwng i holl weithgareddau'r flwyddyn.

Rhannwyd yr adroddiad blynyddol a diolchwyd i'r swyddogion presennol am eu gwaith. Croesawyd swyddogion y flwyddyn nesa sef Llywydd: Ceri Hughes; Trysorydd: Mair John; Ysgrifenydd: Eluned Press; Is-Ysgrifenyddion: Shan Morgan, Alison Kitchen, Siân Emily Evans a Janet Rees; Swyddog y Wasg: Joy Davies.

Ein gwestai fis Mai oedd Arfon Haines Davies. Er ei fod yn disgrifio ei hun fel "y person mwya lwcus yn y byd sydd wedi digwydd bod yn y lle iawn ar yr amser iawn ", mae'n amlwg bod mwy o ruddin iddo na hynny.

Mae'n fab y Mans a'i fam yn un o sefydlwyr Merched y Wawr yn Nhreffynnon ac mae dylanwad ei gefndir yn gryf arno. Cawsom gip ar ei gyfnod yn yr ysgol yn Aberystwyth ac wedyn yn Sir y Fflint, y symud yn rhan o hynt teulu Gweinidog Wesleaidd.

Yn ei gyfnod gydag HTV daeth yn wyneb cyfarwydd a gafodd stôr o brofiadau difyr gan gwrdd â phobl ddiddorol ac enwog. Wrth godi cwr y llen ar atgofion o'i yrfa clywsom iddo rannu llwyfan efo Tom



*Arfon Haines Davies a Rosina Davies, Llywydd*

Jones, sgwrsio efo Hank Marvin (ei arwr) a'r amryfal raglenni y bu'n gweithio arnyn nhw dros y blynyddoedd. Cafwyd llawer o chwerthin wrth wrando ar sawl hanesyn doniol a deifiol. Sôn am arwr o'i filltir sgwâr wnaeth Arfon wrth gloi ei sgwrs. Roedd Lewis Valentine yn gymydog iddynt ym Mae Colwyn ac roedd cyd-adrodd *Gweddi Dros Gymru* yn ddiweddglo teimladwy i noson gartrefol.

# Merched y Wawr Y Felin

Pleser oedd croesawu Jo Knell i'n plith ym mis Mai.

Daeth Jo yn adnabyddus yng Nghymru wedi iddi ennill cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn yn Eisteddfod Genedlaethol Yr Wyddgrug ym 1991.

Bwriodd ati wedyn yn frwdfrydig ac yn ddiflino i weithio dros ledu defnydd o'r iaith Gymraeg yn y brifddinas. Bu'n Swyddog Datblygu i'r Mudiad Meithrin ac yna agorodd Siop CANT a MIL yn ardal y Mynydd Bychan. Mae'n enw da i'r siop gan taw rhif 100 yw'r cyfeiriad ac mae'n gwerthu cant a mil o nwyddau amrywiol o Gymru yn ogystal ag ystod enfawr o lyfrau Cymraeg newydd ac ail-law.

Pwrpas arall y siop yw hybu dysgwyr o bob lefel i ymgynnull yno am sgwrs a chyfle gwych i ymarfer eu Cymraeg gyda siaradwyr naturiol dros goffi.

Mae'n cadw cysylltiad agos â'r ysgol Gymraeg leol a bydd rhieni a phlant yn cymryd rhan yn y Clwb Llyfrau yno yn rheolaidd i fwynhau darllen, rhannu a gwrando ar storïau . Menter sydd wedi llwyddo cymaint nes iddynt orfod chwilio am adeilad mwy i'w gynnal.

Mae CANT a MIL yn sicr wedi ennill ei dir ac mae trigolion di-Gymraeg yr ardal i'w gweld yn dod i brynu cardiau ac yn cychwyn sgwrs am ystyr y geiriau Cymraeg sydd arnynt. Mae newid agwedd pobol fel hyn yn beth mawr ac mae'r clod i gyd i Jo Knell.

Diolch Jo am dy gwmni diddorol.

Croeso i chi ymuno â ni, MyW Y Felin, ar drydedd nos Iau bob mis.




*Jo Knell*

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

Gwnaeth Banc Lloegr gyhoeddi cynnydd o 0.25% mewn cyfraddau llog ym mis Mai, gan gynyddu'r gyfradd sylfaenol i 1%. I'r rhai sydd â morgais o £100,000, bydd ad-daliadau misol yn codi £20.

Ar gyfer cynilwyr mae peth newyddion da a dylech nawr dderbyn dros 1% ar gyfrifon cynilo. Fodd bynnag, efallai bydd angen i chi edrych y tu hwnt i'r prif fanciau gan nad ydynt wedi cynyddu cyfraddau cynilo yn unol â'r cynnydd mewn cyfraddau llog.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae Banc Lloegr yn rhagweld cyfraddau llog o 2.5% erbyn canol 2023. Bydd hyn yn cynyddu costau misol ar forgais o £100,000 tua £150. Os oes gennych chi forgais mawr a'ch bod ar gyfradd llog amrywiol, gwiriwch eich opsiynau nawr cyn bod cynnydd pellach yn y cyfraddau llog.

Mae adroddiad diweddar wedi canfod y byddai 25% o bobl 18-34 oed yn ymddiried mewn negeseuon sgam (mwy na dwbl cyfran y rhai dros 55 oed). Yn ogystal, dyw 25% o bobl ifanc 18-34 oed ddim yn gwirio negeseuon sgam am wallau gramadegol, sef un o brif ddangosyddion neges sgam. Byddwch yn ofalus wrth dderbyn e-byst, negeseuon testun neu alwadau oddi wrth unigolion neu sefydliadau nad ydych yn eu hadnabod ac os ydych yn ansicr, peidiwch ag ymateb!

*Am fwy o fanylion cysylltwch â ni trwy:*
*Huwaledaccounts.com neu 029 20694525*

**Cwestiynau Huw ac Aled**: *Dwi wedi darllen ar-lein bod llawer o enwogion wedi lleihau eu treth etifeddiaeth drwy ddefnyddio amryw o gynlluniau. Allwch chi ddweud ychydig wrthyf am y gwahanol opsiynau sydd ar gael? (Rydym yn barod wedi trafod buddsoddiadau treth-effeithiol, Gweithred Amrywio, bwlch treth 'Ronnie Corbett' a threfniadau ewyllys Bruce Forsyth.)*

Yn yr erthygl olaf byddwn yn trafod yr un opsiwn y gallwn i gyd ei ddefnyddio sef ysgrifennu ewyllys treth-effeithlon.

Mae llawer o enwogion wedi marw'n ddiewyllys, gan gynnwys y cantorion Prince ac Aretha Franklin a'r actor Rik Mayall, gan achosi problemau mawr i'w hystadau a'u buddiolwyr. Mae llawer o fanteision o gael ewyllys:

- Bydd yn gwneud pethau'n haws i'ch teulu pan fyddant yn prosesu eich ystad.
- Gydag ewyllys ddilys gallwch sicrhau bod yr ystad yn mynd lle'r ydych am iddi fynd, yn hytrach na dibynnu ar gyfreithiau diffyg ewyllys ('intestacy') sy'n anhyblyg iawn.
- Drwy gynllunio ymlaen llaw, gallwch wneud cynlluniau i leihau, gwario neu wneud rhodd o'ch ystad os ydych yn gwybod y gall Treth Etifeddiaeth fod yn daladwy ar eich ystad.
- Gallwch roi arian o'ch ystad i elusen. Mae'r rhoddion hyn yn derbyn rhyddhad treth etifeddiaeth llawn o 40%. Mae rhodd o £10,000 yn lleihau bil treth etifeddiaeth gan £4,000.

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Yn ystod mis Mai croesawodd yr aelodau ddau siaradwr â chyflwyniadau gwbl wahanol.

Ar 6 Mai ar Zoom, Menna Brown fu'n cyflwyno hanes y wraig enwog Sarah Jane Rees, sef Cranogwen (1839-1916), bardd, athrawes, pregethwraig a darlithydd. Ganwyd Cranogwen yn ardal Llangrannog ar fferm ei rhieni, Dolgoy Fach. Wedi derbyn ei haddysg gynnar mewn ysgol gynradd, penderfynodd ei bod am fordeithio gyda'i thad a dysgu morwriaeth yn ei harddegau. Bu'n athrawes am gyfnod gan hyfforddi bechgyn lleol fel morwyr. Bu'n pregethu dros Dde Cymru, er iddi dderbyn gwrthwynebiad gan bregethwyr eraill o ddynion. Roedd yn fardd wrth reddf ac enillodd yn yr Eisteddfod Genedlaethol gan guro beirdd fel Islwyn. Darlithiai yn eang a gwahoddwyd hi i fynd i America lawer tro. Fe sylfaenodd Mudiad Dirwestol Merched y De. Bwriedir roi cofeb iddi ger Eglwys Bresbyteraidd Bancyfelin, yn agos i'w bedd yn Eglwys Sant Caranog.

Yn ein lleoliad newydd ym Methel, Rhiwbeina, fore Mercher, 18 Mai, cyflwynodd Geraint Cynan, cerddor a chyfansoddwr poblogaidd, ei brofiadau cwbl unigryw mewn llawer maes cerddorol. Fe'i ganwyd a'i fagu yn Nhreorchi. Bu ei dad, John Cynan Jones, yr arweinydd côr, yn ddylanwad mawr arno, a'i athrawesau Lily Richards a Mrs Beasley yn allweddol yn ei addysg uwchradd. Bu yn gysylltiedig â llawer o grwpiau mwyaf poblogaidd dros Cymru gyfan ac yn cydweithio â cherddorion enwog fel Siân James a Titch Gwilym. Cafodd gyfarwyddyd gwerthfawr gan Rhisiart Arwel a Gareth Williams. Perfformiodd yn yr Unol Daleithiau, Siapan, yr Iseldiroedd a'r Eidal. Mae yn gyfansoddwr wrth reddf ac wedi dangos ei allu creadigol mewn cyfresi teledu lawer ac ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol. Diolchwyd iddo am gyfrannu gymaint i gerddoriaeth gorau Cymru.

Noder:- bydd yr Aelwyd Hamdden yn cyfarfod bob pythefnos yn Eglwys Bethel, Rhiwbeina ar fore Mercher am 11 o'r gloch. Cyfarfod nesaf – 15 Mehefin.

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Daeth ein rhaglen 2021-22 i ben ym mis Ebrill. Fel Cadeirydd rwy'n falch o gael y cyfle hwn i ddiolch i Rhys Morris a Cerian Angharad, ein cyd-ysgrifenyddion, am eu gwasanaeth hawddgar ac effeithiol mewn cyfnod blin iawn heb gyfarfodydd wyneb-yn-wyneb. Ers dwy flynedd buom yn cynnal cyfarfodydd drwy gyfrwng Zoom. Ond mae ymyl arian i bob cwmwl du, meddir. Bu'r cyfrwng newydd yn fodd i ni daro cysylltiad gyda Chymdeithas Wyddonol Gwynedd a rhannu cyfarfodydd, gan bontio'n ddidrafferth ar draws Cymru. Mawr yw diolch y ddwy gymdeithas i'r tywysyddion, Cerian yn y De a Gareth Tilsli yn y Gogledd. Bu'r rhaglenni'n amrywiol eu testunau, megis mathemategwyr Cymru, trin ysgwyddau, trafod data, ystyried pŵer niwclear, sbienddrych James Webb, hydrogen yng Nghymru, profiad meddyg teulu, a'r Haul. Mantais arall y cyswllt Zoom oedd cael cwmni siaradwyr o bell, heb iddynt na ninnau deithio o'n cartrefi.

Beth nesaf? Mae'r ddwy gymdeithas wrthi'n trafod sut orau i groesawu'r cyfle o aildrefnu cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb wrth gadw manteision Zoom. Mae sôn bod modd cael cyfarfodydd sy'n wyneb-yn-wyneb a Zoom! Cawn weld. Beth bynnag ddaw bydd croeso i hen gyfeillion a rhai o'r newydd. Dewch i ddysgu am ryfeddodau ac i gynnal y Gymraeg!

*Neville Evans*

## Y DIGWYDDIADUR

### Mehefin

**Iau, 9 Mehefin**
'Cynhadledd Llenyddiaeth Gymraeg: Llwybrau Newydd' dan nawdd Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yn Siambr y Cyngor, Prif Adeilad Prifysgol Caerdydd, CF10 3AT. Manylion pellach: Dr Rhiannon Marks (MarksR@caerdydd.ac.uk) a Dr David Callander (CallanderD@caerdydd.ac.uk).

**Sul, 12 Mehefin**
Taith Tafwyl. Taith ddiwylliannol o gwmpas Parc Cathays a'r cyffiniau yng nghwmni Dr Dylan Foster Evans a Dr Gethin Matthews, yn dechrau am 2.30pm. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Llun-Gwener, 13-17 Mehefin**
FFRINJ TAFWYL. Am y manylion am ddigwyddiadau'r Ffrinj, ewch i https://tafwyl.org/ffrinj/

**Mercher, 15 Mehefin**
Darlith Goffa R. Tudur Jones a Pennar Davies. Fe'i traddodir eleni gan yr Athro E. Wyn James ar y testun 'Ieuan Gwynedd: Arwr Cenedl', am 7.30pm drwy gyfrwng Zoom (y ddolen i'w chael drwy e-bostio undeb@annibynwyr.org neu ffonio 01792-795888).

**Gwener, 17 Mehefin**
Cyngerdd gyda Charlie Lovell-Jones yn Eglwys Mihangel Sant a'r Holl Angylion, Machen Isaf am 7:30pm. Tocynnau yn £15 drwy www.ticketsource.co.uk/Lower-Machen-Music

**Sadwrn–Sul, 18–19 Mehefin**
TAFWYL. Am y manylion, ewch i https://tafwyl.org/

**Llun, 20 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Noson yng nghwmni Vaughan Roderick o'r BBC, yng nghapel Bethel, Rhiwbeina, am 7.30pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653).

**Mawrth, 21 Mehefin**
Cymdeithas Carnhuanawc, ar y cyd â Chymdeithas Cymreigyddion y Fenni. Taith o gwmpas Caer-went dan arweiniad Frank Olding. Manylion pellach: cymcarnhuanawc@gmail.com neu helo@cymreigyddion.cymru.

**Llun, 27 Mehefin**
Menter Caerdydd. Tro hamddenol o gwmpas Penarth, yn dechrau am 10.30am. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Llun, 27 Mehefin**
Menter Caerdydd. Sgwrs gan Dr Jonathan Morris o Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, ar y testun 'Llunio prawf darllen i blant ysgolion Cymraeg: profiadau a chanlyniadau'. Am 7.30pm drwy gyfrwng Zoom. Am ddim. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

### Gorffennaf

**Iau, 14 Gorffennaf**
Menter Caerdydd. Taith gerdded rhwng Parc Hailey a Choed Radur, yn dechrau am 10.00am. I gofrestru, cysylltwch â (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Sadwrn, 16 Gorffennaf**
Datganiad Organ gan Emma Gibbins yn y Tabernacl ar yr Ais am 12.30pm.

**Mercher, 20 Gorffennaf–Sadwrn, 30 Gorffennaf**
'Anthem': comedi gerddorol Gymraeg newydd gan Llinos Mai yn Stiwdio Weston, Canolfan Mileniwm Cymru. Manylion pellach: https://www.wmc.org.uk/cy/digwyddiadur/2022/anthem

**Anfonwch fanylion ar gyfer y Digwyddiadur at yr Athro E. Wyn James. Manylion ar dud. 2**

## Cyfarfod Blynyddol *Y Dinesydd*

Cynhelir cyfarfod blynyddol *Y Dinesydd* eleni ar nos Iau, 9 Mehefin am 7 o'r gloch ar Zoom.

Dyma gyfle gwych i chi fynegi eich barn am gynnwys a diwyg y papur, cynnig syniadau a gofyn cwestsiynau am ein papur bro.

I gael y linc e-bostiwch eirianagwilym@gmail.com

# *Pridd*
# gan Llŷr Titus

Mae awdur ifanc o Benrhyn Llŷn wedi cyhoeddi ei nofel gyntaf ar gyfer oedolion.


*Pridd* yw teitl y gyfrol a'r awdur yw Llŷr Titus. Y cyhoeddwyr yw Gwasg y Bwthyn o Gaernarfon.

Nofel fer drawiadol yw *Pridd* sy'n bortread byw, ac effeithiol o gynnil, o gymeriad unigryw a'r newid yng nghefn gwlad.

Meddai Llŷr, 'Mae *Pridd* yn agos at fy nghalon i, fe gafodd hi ei hysbrydoli gan fy milltir sgwâr a'r syniad o berthyn, perthynas pobl â lle a sut mae'r naill yn siapio'r llall.'

Un o Fryn Mawr gerllaw Sarn ym Mhenrhyn Llŷn yw Llŷr sydd erbyn hyn yn byw yng Nghaernarfon. Enillodd Goron Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn 2011, a'r Fedal Ddrama y flwyddyn olynol. Enillodd ei gyfrol gyntaf, nofel ffuglen wyddonol ar gyfer pobl ifainc, *Gwalia*, wobr Tir na nÓg yn 2016.

Mae Llŷr hefyd yn ddramodydd; llwyfannwyd ei ddrama *Drych* gan gwmni'r Frân Wen yn 2015 ac mae'n un o sylfaenwyr Cwmni Drama'r Tebot. Sefydlodd e ar y cyd yn ogystal â chylchgrawn *Y Stamp* a'r wasg Cyhoeddiadau'r Stamp a bu'n un o olygyddion y cylchgrawn a rhai cyhoeddiadau eraill. Mae newydd gwblhau ei ddoethuriaeth ym maes Astudiaethau Celtaidd. Yn ogystal â llenydda ac astudio bu hefyd yn gweithio fel ymchwilydd a sgriptiwr teledu.




Meddai Meinir Pierce Jones, Golygydd Creadigol Gwasg y Bwthyn, 'Yn *Pridd* ceir darlun cignoeth ond cyfareddol o fywyd Hen Ŵr yng nghefn gwlad Llŷn. Wrth ddarllen deuwn ar draws trysorau bach o ddweud arbennig, dro ar ôl tro, sydd yn bleser pur.'

# Profi awyr agored Eryri, cymeriad Caernarfon a'r Gymraeg -

Am y tro cyntaf mae menter gymdeithasol o Gaernarfon yn cynnig pecyn penwythnos awyr agored fydd yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ers ei sefydlu yn 2017, nod Llety Arall yw cynnig arlwy ychydig yn wahanol i ymwelwyr â Chaernarfon, gyda'r pwyslais ar y Gymraeg a diwylliant unigryw'r dref. Yn gwmni sy'n eiddo i'r gymuned leol, mae Llety Arall yn awyddus i ymestyn at bobl sydd am brofi hanes a threftadaeth yr ardal a chael gwneud hynny yn Gymraeg.

Mae'r llety wedi dod ag arbenigwyr ynghyd i arwain gweithgareddau'r penwythnos gan gynnwys Anelu, cwmni sy'n arbenigo mewn teithiau tywys lleol, a'r hanesydd poblogaidd, Rhys Mwyn.

Meddai Rhys: "Bydd hwn yn benwythnos i'w gofio a dwi'n falch iawn o allu gweithio efo Llety Arall a chael bod yn rhan o'r digwyddiad yma - y cyntaf o nifer gobeithio. Mi fyddwn i yn annog unrhyw un sydd am gael profiad Cymraeg go iawn ac sy'n mwynhau'r awyr agored i gysylltu ac i ymuno a ni!"

Ychwanegodd: "Dyma gyfle gwych i sgwrsio a cherdded. Yn aml mae sylwi ar bethau diddorol yn ysgogi trafodaeth ac yn gallu arwain at ehangu geirfa. Haws cofio weithiau wrth gael hwyl!"

Meddai Menna Machreth, cyd-gadeirydd bwrdd Llety Arall, "Mae'r penwythnos yn addas ar gyfer siaradwyr iaith gyntaf a dysgwyr ac mae croeso i bawb. Dim ond nifer cyfyngedig o lefydd sydd ar y penwythnos felly mi fyddwn yn annog pobl i gysylltu mor fuan â phosib."

Mae'r penwythnos yn cymryd lle rhwng 17 a19 Mehefin. I holi am y pris ac archebu lle ar y penwythnos awyr agored, cysylltwch â Llety Arall ar e-bost post@lletyarall.org neu ffoniwch 01286 662907.

*Lois Eckley*

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*




## Yr Athro E. Wyn James

**Bwrlwm yn y Barri: D. Arthen Evans ym Mhwerdy'r Gymraeg** (Rhan 3)

Gwelwyd twf aruthrol ym mhoblogaeth y Barri yn dilyn agor y dociau yno yn niwedd y 19eg ganrif. Ond fel y nodwyd y tro diwethaf, canran fach o'r boblogaeth fawr honno a siaradai'r Gymraeg. Yn 1912, er enghraifft, flwyddyn geni Gwynfor Evans, un o feibion enwocaf y dref ac Aelod Seneddol cyntaf Plaid Cymru, tua 12% o bobl y Barri a fedrai'r Gymraeg, sef tua 3,500 o bobl; ac fel y crybwyllwyd eisoes, ac fel y gwelwyd yn achos y Gwynfor Evans ifanc, un o nodweddion bywyd Cymraeg y Barri yn negawdau cyntaf yr 20fed ganrif oedd methiant llawer o siaradwyr Cymraeg y dref – nifer dda ohonynt wedi ymfudo yno o orllewin Cymru – i drosglwyddo'r iaith i'r genhedlaeth iau.

Ond yr ochr arall i'r geiniog oedd bod nifer arwyddocaol o siaradwyr Cymraeg y Barri yn y cyfnod hwnnw yn bobl bur amlwg a dylanwadol nid yn unig ym mywyd y dref ei hun ond yn genedlaethol. Yn wir, gellid ystyried y Barri yn hanner cyntaf yr 20fed ganrif yn un o'r pwerdai mwyaf grymus o ran hybu'r Gymraeg a Chymreictod yn genedlaethol; ac fel y soniwyd y tro diwethaf, yr un a fu'n fwy cyfrifol na neb, efallai, am hynny oedd D. Arthen Evans (1878–1936) – enw sydd, ysywaeth, wedi mynd yn angof i raddau helaeth erbyn heddiw.



***D. Arthen Evans (1878-1936)***

Athro fu Arthen Evans ar hyd ei yrfa. Fel yr awgryma ei enw, brodor o ardal Glynarthen yng ngodre Ceredigion ydoedd. Roedd gan Arthen ddiddordeb byw yn y Gymraeg a'i diwylliant ac yn hanes Cymru, ac yn enwedig yn hanes ei fro enedigol. Er enghraifft, bu ganddo gyfresi o erthyglau yn y cylchgrawn *Cymru* rhwng 1907 ac 1925 yn trafod geiriau llafar godre Ceredigion. Hoffai hefyd gystadlu mewn eisteddfodau, a thraethawd buddugol yn Eisteddfod Twr-gwyn, Rhydlewis, ddydd Calan 1906 oedd cyfrol gyntaf Arthen Evans, *Beirdd Glannau Ceri*, a argraffwyd yn swyddfeydd y *Barry Herald* yn Rhagfyr 1906.

Bu Arthen yn ddisgybl-athro mewn ysgol yng Nglynarthen cyn ennill ysgoloriaeth bwysig, y 'Neale Exhibition', a mynd i astudio yn y Coleg Normal ym Mangor yn 1896. Disgleiriodd yn ei arholiadau yno, gan fynd wedyn yn athro i Dreharris am ddwy flynedd cyn symud i'r Barri yn 1901. Arwydd o'i ragoriaeth fel athro yw'r ffaith iddo gael ei benodi'n brifathro ysgol yn Aberaeron yn 1902, ac yntau ond yn 24 oed; ond tynnodd ei gais yn ôl gan aros yn athro yn y Barri hyd ei farw yn 1936.

Ganed Arthen Evans mewn cyfnod o adfywiad cenedlaethol arwyddocaol yng Nghymru, adfywiad a gysylltwn â mudiad 'Cymru Fydd' ac ag arweinwyr megis O. M. Edwards a'r David Lloyd George ifanc; ac fe weithiodd Arthen yn ddiwyd dros Gymru a'r Gymraeg ar hyd ei fywyd. Rhan o ffrwyth yr adfywiad cenedlaethol hwnnw oedd sefydlu yn 1885 gymdeithas i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn gyfrwng addysgu mewn ysgolion elfennol, sef 'The Society for Utilizing the Welsh Language' (neu 'Gymdeithas yr Iaith Gymraeg' fel y'i gelwid yn y Gymraeg, er ei bod yn bur wahanol ar sawl cyfrif i'r 'Gymdeithas yr Iaith Gymraeg' ddiweddarach a sefydlwyd yn 1962).

Penodwyd David James ('Defynnog'; 1865–1928) yn ysgrifennydd y gymdeithas honno yn Hydref 1902. Fel Arthen, aeth ei enw ef yn bur angof erbyn hyn, er ei gyfraniad pwysig yn ei ddydd i'r gwaith o hybu'r Gymraeg a Chymreictod. Fel yr awgryma ei enw barddol, fe'i ganed yn ardal Defynnog yn sir Frycheiniog, yn fab i weinidog gyda'r Bedyddwyr. Bu'n ddisgybl mewn ysgolion yng Nghynwyl Elfed, sir Gaerfyrddin, a Dinas, sir Benfro, a threuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn athro yng Nghwm Rhondda.

Roedd 'Defynnog' yn drefnydd medrus, ac un o'r pethau cyntaf a wnaeth fel Ysgrifennydd Cymdeithas yr Iaith oedd dechrau trefnu Ysgolion Haf Cymraeg dan nawdd y Gymdeithas, er mwyn hyfforddi athrawon yn nulliau dysgu'r Gymraeg a'u trwytho yng ngramadeg y Gymraeg a'i llenyddiaeth ac yn hanes Cymru. Daeth yr ysgolion hyn yn ddigwyddiadau o bwys yn y calendr diwylliannol Cymraeg, gan ddenu darlithwyr o fri, megis John Morris-Jones, J. E. Lloyd ac Edward Anwyl.

Roedd Arthen Evans yn gefnogydd brwd i'r Ysgolion Haf Cymraeg o'r dechrau. Soniwyd y tro diwethaf fel y bu i Arthen a'r Parch. Ben Evans, gweinidog eglwys yr Annibynwyr yn Nhabernacl y Barri (a thad-cu Gwynfor Evans), ymweld yn 1905 ag ysgol yn Nowlais a oedd yn 'arwain Cymru' wrth ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Ond roedd llwybrau Arthen a phrifathro'r ysgol honno, R. H. Rees, eisoes wedi croesi. Roedd R. H. Rees yn aelod o Gyngor Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ac yn sefydlydd y 'Cwmni Cyhoeddi Addysgol / Educational Publishing Co.', cyhoeddwyr cynhyrchiol a dylanwadol, a bu ef ac

Arthen ill dau yn bresennol yn Ysgol Haf gyntaf Cymdeithas yr Iaith, yng Ngholeg Aberystwyth yn 1903.

Roedd Ben Evans yn aelod o Bwyllgor Addysg y Barri pan aeth yng nghwmni Arthen i Ddowlais yn 1905. Ni châi'r Gymraeg le o gwbl yn ysgolion y Barri ar y pryd, ac ym mis Mehefin 1906 gwelwn Ben Evans yn defnyddio esiampl yr ysgol yn Nowlais wrth iddo gynnig yn y Pwyllgor Addysg y dylai'r Gymraeg gael ei dysgu yn holl ysgolion y Barri. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'w gynnig, ac er i'w ymdrechion ef ac Arthen ac eraill i wneud y Gymraeg yn orfodol i bob disgybl fethu o drwch blewyn yn y pen draw, trwy eu hymgyrchu taer fe lwyddwyd i gynyddu'n arwyddocaol y ddarpariaeth Gymraeg yn ysgolion y Barri.

Cydweithiai Ben Evans ac Arthen Evans yn agos yn y gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob math o gyd-destunau, yn lleol ac yn genedlaethol. Roedd Arthen yn Gristion o argyhoeddiad. Magwyd ef ymhlith yr Annibynwyr – a diddorol nodi, gyda llaw, fod dau o gyfoedion Arthen, sef Moelona (awdur *Teulu Bach Nantoer*) a Caradoc Evans (awdur *My People*), wedi eu magu ill dau yng nghapel Hawen yr Annibynwyr yn Rhydlewis, nid nepell o Lynarthen. Ac yn y Barri, ymaelododd Arthen yn eglwys yr Annibynwyr yn y Tabernacl, a'i ethol yn flaenor yno ym mis Medi 1916 (yr un adeg â Dan, mab Ben Evans); a bu Arthen, fel Ben Evans, yn weithgar iawn yn ceisio cael mynychwyr y Tabernacl i 'anwesu'r Gymraeg'.

Cynhwyswyd mawlgân gan Arthen yn argraffiadau 1921 ac 1961 o lyfr emynau'r Annibynwyr, *Y Caniedydd*, ar dôn 'Yr Hen Ganfed':

> Am ei fendithion gwerthfawr, drud,
> Molianner Iôn drwy'r eang fyd;
> Boed moliant fry mewn nefol gân
> I'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.

Daeth rhai o deulu Arthen yn drwm dan ddylanwad Diwygiad 1905, a diddorol ei weld yn dweud hyn yn 1909: 'Fel canlyniad [i'r Diwygiad], torrodd tonn o ysbryd gwladgarol dros ein gwlad. Teimlir ei heffeithiau daionus hyd heddyw. Sefydlwyd llu o gymdeithasau gwladgarol er hyrwyddo ein hiaith a'n llên.' Yn eu plith roedd Cymrodorion y Barri, a sefydlwyd yn 1906, gydag Arthen Evans yn Ysgrifennydd a Ben Evans yn un o'r Is-lywyddion.

Llywydd cyntaf Cymrodorion y Barri oedd Edgar Jones (1868–1953), un arall a fu'n weithgar o blaid y Gymraeg yn lleol ac yn genedlaethol. Gwasanaethodd ar nifer o gyrff addysgol a diwylliannol dylanwadol, gan gynnwys bod yn aelod o Gyngor Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ac yn un o gyfarwyddwyr y 'Cwmni Cyhoeddi Addysgol'. Brodor o Lanrhaeadr-ym-Mochnant ydoedd. Bu'n brifathro Ysgol Sir y Barri o 1899 hyd ei ymddeoliad yn 1933, a than ei arweiniad ef daeth yr ysgol honno i'w hystyried gyda'r gorau yng Nghymru. Bu dau brifardd yn dysgu'r Gymraeg yno, sef R. Williams Parry (1913–16) a Gwenallt (1925–27), ac roedd Annie Ffoulkes, golygydd y flodeugerdd boblogaidd *Telyn y Dydd* (1918), yn athrawes Ffrangeg yn yr ysgol rhwng 1908 ac 1918.

Edgar Jones oedd tad y newyddiadurwr Gareth Vaughan Jones (1905–35), a ddatgelodd i'r byd y newyn erchyll yn Wcráin yn 1933 ac a lofruddiwyd ym Mongolia Fewnol yn 1935. Yn ei lyfr *Gareth Jones: Y Dyn oedd yn Gwybod Gormod* (2014), mae'r newyddiadurwr a'r darlledwr, Alun Gibbard – a fu yntau'n byw yn y Barri yn niwedd yr 1970au a dechrau'r 1980au – yn cyffelybu bywyd Gareth Jones i un Indiana Jones! Ac yn wir, fe wnaed ffilm yn seiliedig ar ei fywyd, *Mr Jones*, yn 2019. Ond rhagor am hynny y tro nesaf…

*(I'w barhau)*

# Miwsig ym Machen Isaf

Ers 50 mlynedd a mwy bellach bu'r cyfnod o amgylch Gŵyl Ifan a Chanol Haf yn gysylltiedig â chyflwyno'r gerddoriaeth glasurol orau yn lleoliad hudolus Eglwys Mihangel Sant a'r Holl Angylion, Machen Isaf. Wedi cyfnod anorfod o dawelwch oherwydd y pandemig rydym yn dychwelyd ar nos Wener, 17 Mehefin gyda chyngerdd arbennig i gychwyn menter newydd - "Miwsig ym Machen Isaf". Gobeithiwn y bydd y digwyddiad yn datblygu yn un blynyddol.

Eleni fe wahoddir Charlie Lovell-Jones i gyflwyno datganiad o gerddoriaeth i ffidil unawdol gan Bach, Paganini, Ysaye ac eraill. Mae Charlie yn enedigol o Gaerdydd ac yn wyneb cyfarwydd i nifer ohonon yn y Brifddinas, wedi ymddangosiadau lawer mewn eisteddfodau o bob math. Rydym yn hynod falch o gynnig llwyfan iddo nid nepell o'i gartref.

Yn sgil ei addysg yn Ysgol Gyfun Glantaf aeth Charlie i Eglwys Crist, Rhydychen lle graddiodd yn 2020 gyda gradd uchaf ei flwyddyn mewn Cerddoriaeth, a Gwobr Gibbs. Fe ddyfarnwyd iddo un o Ysgoloriaethau Deucanmlwyddiant prin yr Academi Frenhinol yn Llundain lle mae'n astudio bellach.


Charlie Lovell-Jones

Yn nhymor y Proms 2021 ymddangosodd Charlie am y tro cyntaf fel blaenwr mewn cerddorfa ddethol newydd yr arweinydd disglair John Wilson sef 'Sinfonia of London'. Cafodd dderbyniad arbennig fel blaenwr ac unawdydd hefyd yn y CDs gyda'r gerddorfa. Bydd yn ymddangos eto gyda'r Sinfonia fel blaenwr ar Ail Noson y Proms eleni yn Neuadd Frenhinol Albert ar 16 Gorffennaf a'r gyngerdd ar BBC4 y noson wedyn. Yn yr hydref mae'n mynd i'r UDA ar ysgoloriaeth arbennig i astudio gydag Augustin Hadelich ym Mhrifysgol Yale.

Cipiwch y cyfle arbennig hwn i'w weld a'i glywed ar 17 Mehefin am 7.30. Ceir tocynnau, sy'n £15 (gyda gostyngiad i £12 i unrhyw un mewn addysg) o wefan Ticketsource: www.ticketsource.co.uk/Lower-Machen-Music.

***Geraint Lewis***

# Merched y Wawr Bro Radur

Nos Fercher 4 Mai, roedd Dr Radha Nair-Roberts, Radur yn sôn am ei gwaith fel ymgyrchydd ar ran pobl anabl – Ymarfer i Bawb/Exercise for All Wales (EFA).

Daw Radha yn wreiddiol o Singapore, a dysgodd Saesneg yn dda pan oedd yn blentyn yno, a hynny yng nghwmni ei nain oedd yn dod o Kerala, India.

Roedd ei thad yn fardd enwog yn Singapore, a ddaeth yn gyfrifol am wasg UNESCO yn Karachi, Pakistan. Pan oedd Radha yn 11 oed symudodd y teulu i Baris pan gafodd ei thad swydd yn y wasg ym mhencadlys UNESCO yn y ddinas honno. Roedd hi yn ei helfen ym Mharis, a dysgodd siarad Ffrangeg yno.

Er ei hoffter o ieithoedd, aeth Radha i Goleg Magdalen, Rhydychen, i astudio gwyddoniaeth. Yn ninas Rhydychen fe wnaeth hi gyfarfod â'r Cymro Tegid Roberts a ddaeth yn ŵr iddi. Cafodd Radha gynnig swydd yn Llundain, ac yna cafodd swydd yng nghanolfan ymchwil delweddu'r ymennydd ym Mhrifysgol Caerdydd, gan ymgartrefu yn Radur yn 2006.

Soniodd Radha am yr ymgyrch lwyddiannus i gael gwell offer i'r anabl mewn canolfannau hamdden yng Nghaerdydd, gan gael y llwyddiant cyntaf yn y ganolfan chwaraeon yn Llanisien. Esboniodd fel y mae'r ymennydd yn gallu adfywio ei hun gyda'r ymarfer priodol. Hefyd datblygodd raglen o weithgareddau rhithiol, gan gynnwys garddio, celf a choginio, i helpu iechyd meddwl pobl anabl drwy'r cyfnod clo (gweler Connect2CreateWales).




***Dr Radha Nair-Roberts a'i gŵr Tegid, a'u plant, Mabon a Menna.***

Cymhellwyd ni i hyrwyddo'r ddarpariaeth werthfawr hon a ariennir gan gronfa gymunedol y Loteri Genedlaethol. Soniodd am y 'gymuned anghofiedig' yn ein cymdeithas – pobl anabl a rhai dan anfantais – a chawsom ein hannog i ddangos mwy o ddiddordeb a chefnogaeth i'r cyfryw rai yn ein plith.

Diolchwyd i'n gwestai am ei gwaith gwerthfawr.

---

RNIB Cymru

## Golwg gwahanol

*Annwyl gyfeillion*

Wyddoch chi fod RNIB yn cynnig gwasanaeth trawsgrifio am ddim i unigolion sydd yn methu darllen print?

Boed y lle hudolus y mae'ch hoff lyfr yn arfer mynd â chi yno, neu atgofion arbennig sy'n cael eu cloi mewn llythyrau neu gyfnodolion nad ydych chi'n gallu eu darllen bellach, rydyn ni'n deall pwysigrwydd a phŵer y gair ysgrifenedig a pha mor anodd mae'n gallu bod i chi ddarllen yr hyn rydych chi eisiau, pan fyddwch eisiau.

Mae bywyd bob dydd yn llawn print a gall yr anallu i'w ddarllen gyflwyno rhwystrau sylweddol i arwain bywyd annibynnol. Gall ein tîm helpu i gael gwared ar y rhwystrau hyn. Drwy gymryd eich print a'i drosi i fformat gallwch chi ei ddarllen eich hun – braille, print bras neu sain – gallent eich helpu chi i gadw mewn cysylltiad gyda'ch cymuned leol, parhau i fynychu grwpiau cymdeithasol a gweithgareddau, mwynhau eich hoff hobi, neu ehangu eich gorwelion drwy addysg neu deithio.

Os am fwy o wybodaeth am y gwasanaeth, cysylltwch drwy e-bostio: cardifftranscription@rnib.org.uk neu ffonio 029 22749668.


Wrth gwrs, er mwyn gallu cynnal y gwasanaeth arbennig yma, rydym yn dibynnu ar garedigrwydd llu o wirfoddolwyr i roi eu hamser i recordio'r print. Mae prinder darllenwyr Cymraeg ar hyn o bryd, felly rydym yn chwilio am bobl sydd yn mwynhau darllen, gyda llais dymunol a chlir, sgiliau TG da a chydag awr neu ddwy yr wythnos yn rhydd i ymuno â ni. Os oes diddordeb gennych, e-bostiwch transcriptionportal@rnib.org.uk am fwy o wybodaeth.


Yr eiddoch yn gywir

*Gwenllian Williams*

Gwasanaeth Trawsgrifio RNIB

## Rhif: 224



**Ar draws**
1.Ydy mul yn gallu pentyrru gwair? (6)
4. Un i ddanfon cyfarchion (6)
9. ‘Gwaith ’rwy’n ----- ----- ----- ----- fach
Yn lanach, lanach beunydd’(anad) (2,4,1,6)
10. O! Magnus, gad iddo suddo i mewn (7)
11. Cryfhau Ruth druan wedi dechrau nerfus eto (5)
12. Seddi i’r cantorion (5)
14. ‘-----, Arglwydd, ar dy wyneb
Sydd yn codi’r marw o’r bedd’ (WW)(5)
18. Dwed wrth hon (5)
19. Gwlad, un i’r gogledd o Loegr sy’n oer iawn (7)
21. ‘Ond rhywun â didostur law
A’th gipiodd ----- ----- -----’(IDH) (1’1,7,4)
22. Mae’n anodd i Aled gael ei ddal gan anifail (6)
23. Un sy’n cynhyrfu o’r cwrdd (6)

**I lawr**
1. Llamaf o gwmpas y pum cant ymlusgiad (6)
2. Camu di-gymar (7,6)
3. Lliw y llwyn (5)
5. Ie, ie Non, mae angen rhoi olew ar dy ben (7)
6, ‘Ac yno ----- ----- ----- -----
Mae Dafydd bêr ei gywydd’ (TGJ) (3,2,4,4)
7. Sêr fu’n betrusgar (6)
8. ‘ “Wele Fi yn -----”
Llefai’r Meichiau gwiw’ (JR) (5)
13. Rhwystro amcan mewn brawddeg (7)
15. Naid yn dilyn hanner bonclust wedi’r ysu di-ddiwedd (6)
16. ‘Llithrodd ei flewyn cringoch dros y grib,
Digwyddodd, -----, megis seren wib’ (RWP) (5)
17. Ffurfio awgrym ynglŷn a’r mur (6)
20. Does neb ond Owain yn dal rhan o’r to (5)

**Enillydd Croesair Rhif 222**
**Arwel Owen, Cyncoed**

**Atebion Croesair Rhif 222**

**Ar Draws:** 1. Cantoresau 7. Dilyw 8. Diddiffyg 10. Myddfai 11. Adwy 13. Siarad 15. Gwesty 17. Dail 18. Gwared 21. Gwaglaw 22. Amodi 23. Blodfresych

**I Lawr:** 1. Cwlwm 2. Newyddian 3. Oedran 4. Eiddo 5. Anffodus 6. Y dewisedig 9. Gwyd y graith 12. Gwariais 14. Anifail 16. Gwiwer 19. Diolch 20. Clod

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Gorffennaf, 2022
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10

Achub y Plant
Save the Children

## Tacluso at Elusen

Tybed a oes gennych chi focs o hen emwaith sydd byth yn cael ei wisgo? Beth am fynd drwyddo a’i ddidoli ac yna ei roi at achos da?

Eleni, yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron, bydd gan yr elusen ‘Achub y Plant’ stondin emwaith. Arni, gwerthir gemwaith ail law o bob math, rhai’n rhad a rhai’n ddrud.

Caiff unrhw ddarnau arian neu aur eu prisio a’u gwerthu am bris realistig a’u harddangos mewn cypyrddau gwydr pwrpasol. Os na werthir hwy yr wythnos honno byddant yn mynd i siop emwaith i’w gwerthu at yr elusen.

Ym 2017, yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn, llwyddwyd i godi dros £4,000 drwy werthu gemwaith.

Os hoffech chi helpu ‘Achub y Plant’ a hynny mewn ffordd ddidrafferth, cysyltwch os gwelwch yn dda efo un ohonom…..
Y dyddiad cau am rhoddion ydi Gorffenaf 25ed.

Yn y De…Emma Berry 07733 328101
walesberry@hotmail.com
Yn y Gogledd…Alison Wood 07766 116114
haawood@gmail.com

Gwerthfawrogir unrhyw eitem.
Diolch, Emma ac Alison, Achub y Plant

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## BETHEL, PENARTH



***Edryd Lloyd ac Alun Daniel***

Ddydd Sul 18 Mai, cawsom achlysur pleserus a theimladol pan gafodd y gynulleidfa gyfle i gyfarch Alun ac Edryd wrth iddynt ymddeol o'u cyfrifoldebau yn ysgrifennydd ac yn drysorydd Bethel. Bu'r ddau yn drefnus a diffwdan wrth warchod buddiannau'r achos dros gyfnod hir. Does dim modd digonol i ni ddangos ein gwerthfawrogiad, ond gobeithiwn yn daer eu bod yn synhwyro beth sydd yn ein calonnau.

Achlysur pleserus ddydd Sul, Mai 22 oedd cymeradwyo cais ein chwaer Siân Meinir i gymryd camau at gael ei chydnabod yn bregethwraig leyg dan drefn ein Cyfundeb. Dymunwn bob bendith iddi ar ei thaith.

Eleni yn yr Eisteddfod Genedlaethol bydd yr Elusen Achub y Plant yn cynnal stondin o emwaith. Cawsom apêl am gymorth gan Emma sy'n weithgar gyda'r elusen. Felly ewch ati i hela eich hen ddarnau, na welodd olau dydd ers hydoedd. Cysylltwch gydag Emma ar walesberry@hotmail.com neu 07733328101.

Ddydd Sul 22 Mai buom yn mentro ar ffurf wahanol o gynnal yr oedfa foreol dan arweiniad Kevin (gweler y llun). Thema ei fyfyrdod oedd, 'Pethau sy'n cael eu gadael ar ôl'. Ar y daith cawsom ein hatgoffa o hanes Ruth, hanes Dafydd a Goliath, bwydo'r 5000 a gorffen gyda sylw Iesu yn dilyn yr Atgyfodiad, 'Tangnefedd i chwi'.

Cynhaliwyd cyfarfod ein Cyngor ddydd Llun 9 Mai. Ymhlith y materion a gafodd sylw oedd (a) mynegi diolch diffuant i John a Gerald am eu gorchestwaith o ymhél â system ffrydio Bethel, (b) mentro ar Awr Ddistaw ar foreau Mawrth, (c) dadorchuddio ffenest liw ar 12 Mehefin, (ch) lansio gwefan Bethel, gyda mawr ddiolch i Bryan.

Wrth lunio'r nodiadau hyn edrychwn ymlaen at arweiniad ein chwaer Mary ac at ddathlu priodas aur. Mwy y tro nesaf.



***Oedfa Goffi Bethel, Penarth***

## EGLWYS DEWI SANT

***Agor yr Eglwys***

Bydd yr eglwys ar agor i'r cyhoedd ar foreau Mercher rhwng 11.00yb ac 1.00yp yn ystod Mai a Mehefin.

***Te i'r Di-gartref***

Roedd gwirfoddolwyr o EDS yn darparu te prynhawn i'r di-gartref yn Festri'r Tabernacl ddydd Sul, 5 Mehefin.

***Ffair Weinidogaethau***

Cynhaliwyd ffair weinidogaethau yn Abaty Margam, ddydd Sadwrn, 14 Mai i ddathlu bywyd yr esgobaeth a'r adnoddau sydd ar gael i gynorthwyo a chyfoethogi ei gweinidogaeth.

***Cymorth Cristnogol***

Dosbarthwyd amlenni Cymorth Cristnogol yn yr eglwys ar 15 Mai. Canolbwyntir eleni ar y cyfnod o sychder a newyn sy'n anrheithio gwlad Zimbabwe.

***Coffi a Chlonc***

Cynhaliwyd Coffi a Chlonc i'r dysgwyr fore Sadwrn, 21 Mai dros Zoom. Cynhelir y bore coffi wyneb yn wyneb ym mis Mehefin.

***Dydd Iau Dyrchafael***

Fe weinyddwyd gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid ddydd Iau, 26 Mai.

## EGLWYS Y CRWYS

Daeth ton y dristwch i'r Crwys yn ystod mis Mai drwy farwolaeth dau o'n haelodau. Bu'r Athro Gwynedd Pierce yn aelod yn yr Eglwys am nifer o flynyddoedd. Yn enedigol o Gaernarfon, roedd yn hanesydd adnabyddus, ac yn Llywydd Anrhydeddus Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. Cafodd fyw bywyd llawn a bu farw ychydig cyn cyrraedd 101 oed. Cydymdeimlwn â Mrs Marjorie Pierce, ei weddw, ac ag Emyr ac Iolo a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

Yna daeth y newydd trist am farwolaeth Mrs Catrin Rowlands. Bu'n aelod ffyddlon ac yn organydd, yn aelod o'r Gymdeithas Ddrama ac yn Ysgrifennydd y Gymdeithas. Mae'n meddyliau a'n gweddïau gyda'i phriod Peter a'r bechgyn, Deian ac Osian a'u teuluoedd yn eu hiraeth.

Bu plant, ieuenctid, a rhieni yr Ysgol Sul ar daith gerdded ym Mae Caerdydd i godi arian tuag at Gymorth Cristnogol. Roeddynt wedi mwynhau yn fawr iawn. Diolch i Hannah Thomas am y trefniadau.

Mae'r Gymdeithas Ddrama wedi ail -gychwyn ar ôl y pandemig a'r aelodau yn falch iawn o gael cyfarfod unwaith yn rhagor. Cafwyd munud o dawelwch i gofio y pump aelod a fu farw yn ystod y flwyddyn diwethaf. Coffa da amdanynt.

Cynhaliwyd noson ddiddorol dros ben gan y Gymdeithas yng nghwmni Mrs Mari Williams, enillydd Medal Daniel Owen yn Eisteddfod Caerdydd 2018. Hyfryd oedd cael cyfarfod wyneb yn wyneb yn y festri am y tro cyntaf wedi'r pandemig. Testun anerchiad Mari oedd 'Sgwennu a Breuddwydio'. Cafwyd trafodaeth fywiog iawn wedyn gyda'r gynulleidfa yn rhannu eu profiadau. Diolch i Cerian Angharad am y trefniadau.

Yn ystod mis Gorffennaf, bydd y Gweinidog yn gwasanaethu ar y Sul cyntaf a'r trydydd Sul. Ar yr ail Sul, y 10fed, bydd y gwasanaethau o dan ofal Mr William Tiplady; Y Parch Robert Owen Griffiths ar y 24ain,, a'r Parch Aled Edwards ar y 31ain. Croeso cynnes i bawb.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

***Llongyfarchiadau***

Llongyfarchiadau mawr i Owain James ar ennill ei ddoethuriaeth yn ddiweddar. Dymunwn yn dda iawn iddo ar gyfer y dyfodol.

***Newyddion o Wlad Thai***

Braint a phleser drwy ryfeddod Zoom oedd cael cwmni Nerys King gyda ni yn ddiweddar yn ein cyfarfod merched Paned a Sgwrs. Mae Nerys yn un o blant yr eglwys sy bellach, gyda'i gŵr Tom, yn gweithio yn Pattaya, Gwlad Thai. Mae Pattaya yn cael ei adnabod fel prifddinas y diwydiant rhyw yn y rhan yna o'r byd gyda dros chwe miliwn o dwristiaid yn ymweld â'r ddinas bob blwyddyn. Mae Nerys a Tom yn gweithio gyda chanolfan Tamar gafodd ei ffurfio i gynorthwyo'r merched sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw. Mae gweithwyr y ganolfan yn ymweld â'r bariau ar draws y ddinas i rannu cariad Duw a hefyd i gynnig cymorth i'r merched drwy ddysgu sgiliau ymarferol fydd yn eu galluogi i droi cefn ar fywyd o buteindra.

***Ymwelydd o Oklahoma***

Braf iawn yn ddiweddar oedd croesawu Allen Rice o eglwys Henderson Hills, Oklahoma i oedfa'r bore. Mae Allen yn teimlo balchder mawr dros Gymru ac mae'r eglwys yn Oklahoma wedi helpu sawl eglwys yng Nghymru yn eu gwaith o efengylu. Bu ein gweinidog Emyr ar ymweliad â Henderson Hills rai blynyddoedd yn ôl.

***Arholiadau***

Dymunwn yn dda iawn i bobl ifanc yr eglwys wrth i sawl un ohonynt wynebu arholiadau pwysig yr haf yma.

## EGLWYS MINNY STREET

www.minny street.org @MinnyStreet
Gweinidog: Y Parchg Owain Llŷr Evans

***Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul***

Edrychwn ymlaen yn fawr at arweiniad ein Gweinidog yn yr oedfaon ar 12 a 19 Mehefin. Cynhaliwyd oedfa deulu'r Sulgwyn fore Sul, 5 Mehefin ac oedfa gymun gyda'r hwyr. Bydd oedfa 12 Mehefin yn oedfa gynnar (9:30) a byddwn yn croesawu cyfaill i arwain yr addoliad yn oedfa 26 Mehefin. Yn ystod oedfaon 19 a 26 Mehefin bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod.

***Gweithgarwch y mis***

Cynhelir cyfarfodydd MATH yn y festri ac ar Zoom fore Mercher, 8 Mehefin a fore Mawrth, 22 Mehefin. Roedd PIMS yn cyfarfod am 19:00 nos Lun, 6 Mehefin a bydd y nesaf nos Fawrth, 21 Mehefin. Ddydd Mercher, 15 Mehefin, trefnir taith ar fws i Aberglasne.

***Priodas***

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Sioned (Treharne) a Luke Fletcher yn sgil eu priodas ym Minny Street ar 5 Mai.

***Cymorth Cristnogol***

Ynghyd â chyfrannu yn amlenni Wythnos Cymorth Cristnogol, cafwyd cyfleoedd ychwanegol i gefnogi gwaith Cymorth Cristnogol mewn noson gerddorol yng nghwmni un o aelodau iau yr eglwys, Lleucu Parri, nos Fercher, 18 Mai, a thrwy fwynhau coffi a chacen wedi'r oedfa fore Sul, 22 Mai.

***COVID-19***

Mae'r eglwys yn parhau i argymell diheintio a bod yn ystyriol o aelodau eraill yn ei hoedfaon a'i chyfarfodydd a pharchu cyd-aelodau sy'n parhau i wisgo gorchudd wyneb. Bydd y cyfle i ymuno ag un oedfa bob Sul drwy gyfrwng Zoom yn parhau. Yn yr un modd, bydd cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal yn y festri hefyd ar gael o hyd drwy Zoom.

## BETHEL, RHIWBEINA

Yn ystod y mis diwethaf cawsom wasanaethau bendithiol dan arweiniad y Parch. Aled Gwyn, Rhys ap Owen, y Parch. Dafydd Owen ac Emlyn Davies ac ar 15 Mai roedd y gwasanaeth yng ngofal yr aelodau. Y thema oedd Gwanwyn a Byd Natur a diolchwn i bob un a gymerodd ran.

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Arfon Roberts, gynt o'r Felinheli. Bu'n aelod o Ebeneser, Caernarfon am flynyddoedd ac yn fwy diweddar daeth yn aelod yma ym Methel. Cofiwn ef am ei gymeriad hoffus a'i hiwmor. Cydymdeimlwn a'i ferched Carys a Sylvia.

Braf yw croesawu i'r byd Megan Elin Sofia, merch fach a anwyd i Bethan a Matthew Preece. Dymunwn bob llawenydd iddynt.

## EBENESER

***Y Cylch***

Bob yn ail fore Mawrth, rhwng 10:30 ac 11:30, mae cyfle i gael sgwrs a phaned yng Nghaffi Roundabout, yr Eglwys Fethodistaidd. Bydd y Cylch nesaf ar 7 Mehefin. Mae croeso i unrhyw un ymuno â ni.

***Clwb Sêr***

Mae'r Ysgol Sul wedi'i ailenwi yn Glwb Sêr fel rhan o'n hymdrech i ymestyn allan at blant a theuluoedd. Mae sêr yn Ebene-sêr bob bore Sul am 10:00 ar wahân i Sul cyntaf y mis pan gynhelir Llan Llanast.

***Te Cameo***

Beth yw hwnnw glywa' i chi'n holi? Cyfle oedd hwn bnawn Sul, 14 Mai, i Ebeneser ymuno â'r Eglwys Fethodistaidd i godi arian ddechrau wythnos Cymorth Cristnogol. Daeth pawb â chyfraniad i'r te, yn frechdanau, cacennau, byrbrydau, ac ati. Roedd yn wledd i'r llygad wir, a chafodd pawb eu digon! Does byth gormod o gacennau all rhywun eu bwyta gyda phaned. Llwyddwyd i godi tua £200 mewn cwmni da gyda llawer o siarad!

***Elusen Tir Dewi***

Diolch i Gwilym Jeffs am redeg yn Ras 10 Cilomedr Caerffili, fore Sul, 15 Mai. Ei amser oedd ychydig dros 41 munud a llwyddodd i godi tua £355. Gwych!




***Gwilym Jeffs***

***Cymorth Cristnogol***

Fore Sul, 22 Mai cynhaliwyd gwasanaeth Cymorth Cristnogol lle gwelsom ni fideo o waith fu ar y gweill yn Zimbabwe i helpu teuluoedd ddygymod â thyfu cnydau mewn hinsawdd sy'n newid. O ganlyniad i dechnegau ffermio newydd gyda hadau sychder-wydn mae pobl yn gallu tyfu cnydau sy'n llwyddo fel bod yna fwyd i bobl. Mae ffynhonnau wedi'u tyllu sy'n rhoi dŵr glân ac mae plant yn gallu mynd i'r ysgol a chael addysg dda. Mae prosiectau Cymorth Cristnogol ac elusennau tebyg yn dibynnu ar gyfraniadau gennym ni oll. Braint yw gallu cyfrannu at waith mor bwysig. Byddwch yn hael!

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

Oedfaon/Ysgol Sul (10:30 a.m.):

5 Mehefin 2022 – Oedfa Gymun – Delwyn Siôn

12 Mehefin – Y Parchedig Gethin Rhys

19 Mehefin – Huw Lloyd

26 Mehefin – Y Parchedig Ifan Roberts

"Ac ni bu dwthwn fel y dwthwn hwn" medd R Williams Parry yn ei soned "Adref".

Ond beth am wythnos fel yr wythnos honno ynghanol mis Mai eleni?

Yn ôl Matthew 24:29 - "*Bydd yr haul yn tywyllu, a'r lleuad yn peidio â rhoi golau;* ***bydd y sêr yn syrthio o'r awyr****, a'r planedau yn ansefydlog*" [Beibl.net]

Ac ar 12 Fai eleni, bu adroddiadau bod pelen dân anferth wedi ei gweld dros rannau o dde-ddwyrain Cymru, gan lanio yng nghyffiniau siroedd Pen-y-bont ar Ogwr neu Rondda Cynon Taf.

Yn ôl Joel 2:31 - "*Bydd yr haul yn troi'n dywyll, a'r* ***lleuad yn mynd yn goch fel gwaed*** *cyn i'r diwrnod mawr a dychrynllyd yna ddod, sef dydd barn yr Arglwydd*" [Beibl.net]

A dyna ddigwyddodd ar 15 Mai – y lleuad yn troi'n goch, gan grogi fel llusern goch yn y nen fel pe bai'n cael ei oleuo oddi mewn.

"*Gwna i gyfiawnder lwyddo yn ei ddyddiau, ac i heddwch gynyddu tra bod lleuad yn yr awyr.*" Salm 72:7:- [Beibl.net]

Ar 18 Mai roedd yn Ddiwrnod Neges Heddwch ac Ewyllys Da Cymru; bob blwyddyn ers 1922, mae pobl ifanc Cymru wedi anfon neges o heddwch i bobl ifanc dros y byd. Lansiwyd y neges eleni yng Nghanolfan Heddwch Nobel yn Oslo, Norwy ym mhresenoldeb Prif Weinidog Cymru: -

"*Mae'n alwad i weithredu gan blant a phobl ifanc Cymru i bobl ifanc y byd, i ddefnyddio pwysigrwydd a phŵer eu llais i erfyn ar lywodraethau a chorfforaethau mawr i weithredu ar frys er mwyn achub ein planed. Mae'n amser deffro!*"

Sut oedd eich wythnos chi tybed? Wedi deffro?

## TABERNACL, YR AIS

Llongyfarchiadau i Hannah Edwards ar gael ei dewis i fod yn rhan o gynhyrchiad opera gyfoes gyda'r Cwmni Opera Genedlaethol. Bydd y perfformiadau yn digwydd dros yr haf.

Llongyfarchiadau hefyd i Elen Edwards ac Arwen Williams ar gyrraedd rownd derfynol Rygbi Merched Ysgolion Cymru dan 16 oed gydag Ysgol Plasmawr. Chwaraewyd gêm wych o rygbi ar gae Stadiwm y Principality.

Rydym yn hapus i nodi bod Helen a Ceri Preece newydd ddathlu genedigaeth Megan Elin Sofia, eu hwyres gyntaf.

Hyfryd oedd cael clywed Siân Morgan Thomas ar raglen *Antiques Roadshow*. Thema ei sgwrs oedd trafod ei chasgliad o lestri Clarice Cliff a chafodd ganmoliaeth uchel gan un o arbenigwyr y sioe.

Braf yw cael sôn am ailgychwyn y drefn o baratoi te i'r di-gartref bob prynhawn Sul yn festri'r Tabernacl. Yn sgil cyfarfod gyda gwirfoddolwyr o eglwysi eraill y ddinas a'r Fro, cytunwyd i ailgydio yn y gwaith brynhawn Sul cyntaf mis Mai. Ychydig ddaeth i'r ddau achlysur cyntaf ond hyderwn weld cynnydd wrth i'r newyddion ledaenu.

Ganol mis Mai, cawsom wledd wrth wrando ar Iestyn Evans yn ein diddori mewn datganiad ar yr organ.

Zohrah Evans oedd y siaradwraig yng Nghymdeithas Pnawn Iau. Ei thema oedd barddoni a phawb wedi mwynhau'r arlwy.

Ddydd Llun olaf mis Mai daeth y Clwb Darllen at ei gilydd i drafod *The Salt Path* gan Raynor Winn.

Cynhaliwyd gwasanaethau bob bore a nos Sul yn ystod y mis. Mawr yw'n dyled i'r canlynol am eu parodrwydd i gynnal yr oedfaon yn eu tro - y bobl ifanc, Mr Ion Thomas, y Parch. Peter Dewi Richards, Marc Jon Williams a'r Parch. Glyn Tudwal Jones.

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Roedd hi'n siom i glywed bod y Tad Peter Davies yn sâl ddiwedd y mis – dymunwn wellhad buan iddo. Felly doedd dim Offeren yn Gymraeg ddiwedd mis Mai. Doedd dim offeiriad arall ar gael i gymryd ei le – y Tad Peter yw'r unig offeiriad yn yr esgobaeth sy'n gallu dathlu'r Offeren yn Gymraeg ar hyn o bryd.

Estynnwn ein llongyfarchiadau i'r Archesgob George Stack ar ei ymddeoliad ym mis Mehefin. Cafwyd Offeren i ddathlu ei Jiwbilî Aur ar 20 Mai yn yr Eglwys Gadeiriol yn Heol Siarl, a chynrychiolwyr o bob plwyf ac ysgol uwchradd yn yr esgobaeth yn bresennol. Bydd yn symud i fyw i Gaerllion ac mae'n edrych ymlaen at fod yn giwrad eto, ym mhlwyf Casnewydd y tro hwn.

Mae'r Archesgob yn arddwr brwd, a bydd yn gallu llunio gardd o'r newydd yn ei gartref newydd. Mae'n gobeithio cael hamdden ac iechyd i'w mwynhau. Pan ddaeth i Gaerdydd o San Steffan, daeth â nifer o lwyni rhosod gydag e i'w ardd newydd yma – bydd rheiny'n aros nawr i groesawu'r Archesgob newydd! Mae hefyd yn darllen yn eang ac yn edrych ymlaen at gael mwy o amser i fwynhau llyfrau. *Ad multos annos!*

Bydd Archesgob newydd Caerdydd yn cael ei sefydlu ar 20 Mehefin. Cyhoeddwyd mai'r Esgob Mark O'Toole, Esgob Aberplym ar hyn o bryd, fydd yn olynu'r Archesgob Stack. Edrychwn ymlaen at gyfnod newydd ym mywyd yr Eglwys yn Ne -ddwyrain Cymru dan ei ofal.

5 Mehefin: Offeren ar Zoom, 4 30pm

26 Mehefin: Offeren Eglwys Teilo Sant, 4 30pm

3 Gorffennaf: Offeren ar Zoom, 11 o'r gloch

Cysylltwch â carys@caerdelyn.com am y ddolen.

**Cadwch mewn cysylltiad â'r *Dinesydd***

**ar Twitter drwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd**

**ac ar Facebook drwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

Yn y byd criced fel nifer o gampau eraill mae cryn drafod am y diffyg cyfleoedd i bobl ifanc chwarae. Er bod rhai eithriadau, prin iawn yw'r ysgolion hynny sy'n rhoi sylw teilwng i griced. Nid yw hyn yn newydd a dyna fy mhrofiad yn y gorllewin dros ddeng mlynedd ar hugain yn ôl! Felly, mae gan glybiau lleol rôl allweddol wrth ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc. Mae cynlluniau megis All Stars a Dynamos wedi bod yn llwyddiannus yn ystod y blynyddoedd diwethaf.



Roedd yn braf felly darllen yng ngholofn Plasmawr yn *Y Dinesydd* mis Ebrill am lwyddiant Caio Brewster o Bentyrch wrth gael ei ddewis i garfan griced dwyrain Cymru dan 14 oed. Felly, penderfynais holi Caio am ei ddatblygiad fel cricedwr a'i uchelgais ar gyfer y dyfodol.

***Holi Caio Brewster***

Roeddwn yn falch i ddarllen yn rhifyn Ebrill o'r *Dinesydd* dy fod wedi dy ddewis i garfan griced dwyrain Cymru dan 14 oed ar gyfer y tymor yma. Llongyfarchiadau.

***Sut wnest di ddechrau chwarae criced a magu diddordeb yn y gamp?***

Pan symudom ni i Bentyrch roedd yna dîm criced yno, a roedd dad yn arfer chwarae criced felly penderfynom y byddai'n syniad da i ymuno yno.

***Ai bowliwr neu batiwr wyt ti neu'r ddau?***

Dwi yn gwneud y ddau ond yn hoffi batio fwy oherwydd mae yn fwy *intense*.

***Yn deall dy fod yn chwarae i Bentyrch. Os allet sôn ychydig am y clwb a sut maent yn rhoi cyfle i chwaraewyr ifanc?***

Mae Clwb Criced Pentyrch yn glwb da iawn os ydych eisiau dechrau chwarae criced oherwydd mae pobl neis a charedig iawn yno ac yn hapus i helpu chi gyda'ch sgiliau criced. Mae yna gymaint o dimau criced ieuenctid gwahanol ar gael o All Stars sef y plant iau hyd at dan 17 ac wedyn oedolion a thîm merched. Mae pawb yn fodlon rhoi cynnig i chi chwarae ar bob lefel.

***Rwy'n siŵr dy fod yn falch iawn dy fod wedi cael dy ddewis i garfan criced dwyrain Cymru dan 14 oed. Rwy'n deall dy fod eisoes wedi chwarae – os allet sôn ychydig am y profiad o ymuno a chwarae gyda'r garfan?***

Mae'r profiad o allu chwarae i dîm ar lefel mor uchel yn brofiad gwych ond yn un anodd, mae yna lawer o bwysau arnoch chi i wneud yn dda ond mae yn sialens dda i drio yn galetach i fod yn well. Mae'r hyfforddwyr yn garedig iawn ac yn brofiadol iawn felly mae'r cyfle i wella yn uchel iawn.

***A oes unrhyw chwaraewyr proffesiynol wedi dylanwadu arnat ti a'r rhesymau am hynny?***

Mae Marnus Labuschagne wedi dylanwadu llawer arnaf oherwydd mae yn chwaraewr da iawn a dwi wedi cwrdd â fe. Nid oedd Marnus wedi cael ei eni mewn i gyfoeth ac roedd angen iddo drio hyd yn oed yn galetach i gyrraedd y brig.

***Beth yw dy uchelgais ar gyfer y dyfodol wrth chwarae criced?***

Dwi moyn bod yn chwaraewr criced proffesiynol oherwydd dwi yn caru y gamp a dwi moyn bod o amgylch popeth sy'n ymwneud â chriced.

***Diolch am dy amser Caio a dymuniadau gorau i ti ar gyfer gweddill y tymor a'r dyfodol.***


**Cylch Meithrin Y Garth**

Mae Cylch Meithrin newydd sbon yn cychwyn ym mis Medi. Bydd y Cylch ar agor o 8yb tan 4yb bob dydd. Lleolir y Cylch yn Neuadd Gymunedol Tŷ Rhiw, Ffynnon Taf a bydd y Cylch yn cynnig gofal cofleidiol i blant meithrin Ysgol Gwaelod y Garth.

A brand new Cylch Meithrin will be starting in September. The Cylch will be open from 8am until 4am daily. The Cylch will be located at Tŷ Rhiw Community Hall, Taffs Well and the Cylch will offer wrap-around care to the nursery children of Ysgol Gwaelod y Garth.

**Person cyswllt am ragor o wybodaeth/**
**Contact for further information:**
Kim Lewis – Davies -07462946181

**Er mwyn cofrestru diddordeb ar gyfer mis Medi cysylltwch â/**
**To register an interest for September please contact**
cylchmeithrinygarth@gmail.com
Trydar/Twitter @CylchGarth

Neuadd Gymunedol Tŷ Rhiw
Abbey Close
Ffynnon Taf
Caerdydd
CF15 7RS

mudiad meithrin

# Pobol y Rhigwm

Daeth pum limrig i law y tro hwn ac mae'n ddigon teg dweud bod pob cystadleuydd wedi cynnig rhywbeth o werth, er bod gan ambell un fwy o afael ar y grefft nag eraill. Mae'n falch gen i nodi na fentrodd unrhyw un gyflwyno'r ocsimoron anghyffyrddus hwnnw, sef y 'limrig dwys'. Mae defnyddio mesur y limrig i sgrifennu rhywbeth dwys yn gyfwerth â rhoi grefi ar ben tarten afalau o ran chwaeth y beirniad hwn (ddim bod y beirniad yn hoffi tartenni afalau, cofiwch, ond mater arall yn llwyr yw hwnnw)! Yn hynny o beth, mae'n rhaid dwyn sylw darllenwyr y golofn hon at y ffaith bod sgrifennu limrig llwyddiannus – hynny yw un sy'n wirioneddol ddoniol ac yn driw i fydryddiaeth – yn gamp; peidiwch â chael eich twyllo gan y ffaith mai mesur digri yw hwn. Mae pob digrifwr yn cymryd ei job o ddifrif. Felly hefyd y limrigwr. Er nad oes diffyg digrifwch y tro hwn, y fydryddiaeth herciog sy'n peri bod Mot a'r Môr-fardd Anffodus wedi methu cael podiwm. Dy'n nhw ddim yn anobeithiol, o bell ffordd ac maen nhw'n haeddu cael eu cyhoeddi isod ond fy nghyngor i'r ddau gystadleuydd hwn yw cyfrwch y sillafau! At hynny, peidiwch â defnyddio geiriau fel 'ddaethant' a 'mordaith' yn llinellau 3 a 4 sy'n mynnu bod yr acen yn cael ei symud at ddibenion mydr. Wedi dweud hynny, dyma ddau limrigwr sy'n meddu ar synnwyr digrifwch, o leiaf!

Mae rhai yn fy ngalw'n fusneslyd
Ond allai ddim peidio ymyrryd
Noethlymunwyr ddaethant
I dorheulo'n y pant
A gwelaf bopeth yn ymysgwyd.

*Mot*

Mae rhai yn fy ngalw'n fusneslyd
Ron i ond eisiau syniadau barddonllyd
Ar fordaith i Beriw
Fe ddigiodd y criw
A fel cosb, ces fy nghlymu i'r bolsbryd!

*Y Môr-Fardd Anffodus*

Codwn i dir uwch gyda chynigion y Cadno, Twts a Telor. Mae'r rhain wedi llwyddo i blethu ffraethineb gyda limrigau sy'n llifo'n esmwyth. Dyma air am y tri yn nhrefn eu teilyngdod, gan bwysleisio nad oes fawr o ddim yn eu gwahanu.

Gofynnaf i chi 'Sut mae'r iechyd?'
ond twyllo yw cynnal sgwrs hyfryd.
Datgelwch gyfrinach
heb sylwi bod cawlach.
Mae rhai yn fy ngalw'n fusneslyd.

*Y Cadno*

Am gyfaddefiad gan y Cadno – ond wedyn, mae'r ffugenw yn awgrymu cyfrwystra, ond yw e?! Efallai mai'r unig fymryn lleia o wendid ym marn y pedant hwn o feirniad yw'r gair 'datgelwch' – gorchymyn yw hwnnw, pan mai 'datgelir' fyddai'r ffurf fwya esmwyth ar y ferf yn y cyd-destun hwn. Hollti blew go iawn, dyma limrig ffraeth, cwbwl diamser gyda defnydd o'r llinell osodedig. Da iawn wir i'r Cadno.

Mae rhai yn fy ngalw'n fusneslyd
A wir gallaf fod yn grintachlyd
Mi wedaf fy mhishyn
Heb golli fy limpyn
A minnau ddim ond yn bryfoclyd.

*Twts*

Mae 'na glyfrwch yn perthyn i limrig Twts hefyd, ac mae'n limrig sydd wedi'i saernïo'n rhyfeddol o lwyddiannus. Sylwch ar y rhestr o ansoddeiriau – 'busneslyd, crintachlyd, pryfoclyd' – anodd iawn gwasgu'r rheiny i gyd mewn limrig sy'n darllen mor ddiymdrech. Gwneud iddo ymddangos yn ddiymdrech yw'r grefft, fodd bynnag! Rwy'n hoffi'r defnydd o dafodiaith a'r diniweidrwydd ar y diwedd, megis "pwy, fi?!". "Ddim ond yn bryfoclyd", sylwch! Limrig ffraeth, gwerth ei halen.

Mae rhai yn fy ngalw'n fusneslyd
Gan grawcian fel brain fyth a hefyd.
Ond ceir un nad yw'n ddig,
Ac fel mwyalch ar frig
Mae'n canu fy nghlodydd mor hyfryd.

*Telor*

Byddai wedi bod yn anodd dewis rhwng y Cadno a Twts ond llwyddodd Telor i gamu'n uwch fyth at y copa. Dyma limrig cwbwl orffenedig wnaeth ddwyn gwên i'm hwyneb. Mae'n ddichon i mi ddweud hyn o'r blaen – neu rhyw amrywiad arno – ond y pethau symlaf sy, fel arfer, yn cydio dynnaf ac yn gweithio orau. Sylwch ar y modd y mae Telor yn gwthio'r limrig yn ei flaen ar ôl bathu'r gyffelybiaeth o frain yn crawcian, gan gyferbynnu'n wych â'r un person sy'n ei ganmol megis mwyalch ar y diwedd. Ydy, mae hwn yn limrig barddonol, ond does dim o'i le ar hynny – mae e'n ddoniol hefyd. Fentra i fod nifer ohonom wedi bod yn destun crawcian cymdeithasol o bryd i'w gilydd, sy'n gwneud yr adegau hynny pan gawn ein canmol dipyn yn felysach! Ymuno â'r mwyalch wna i y mis hwn a datgan mai Telor biau'r limrig buddugol!

*Aron Pritchard*

**Enillydd tasg Mai yw**
**Margaret Griffiths, Caerdydd**

## Cystadleuaeth mis Mehefin

**Pennill, heb fod dros 4 llinell,**
**ar y testun**
***Eisteddfod***

*Anfonwch eich cynigion erbyn 22 Mehefin, 2022 at:*
*eirianagwilym@gmail.com*
*Gwobr: Tocyn llyfr: £10*

# Siaradwyr Cymraeg Newydd



## *Offeiriaid Esgobaeth Bangor*

## Gwilym Dafydd

***Gair gan Cathy 'Chicago'***

Ar ddiwedd mis Mawrth gadewais y Cyngor Prydeinig ac ar ôl gwyliau byr yn America i ymweld â theulu, dechreuais i swydd newydd fel Rheolwr Rhaglen Cymru Gyfan gyda Chymdeithas Ddysgedig Cymru. Pwy? (neu hyd yn oed beth?) Wel, yn ffodus, mae gyda ni wefan yn Gymraeg. (https://www.cymdeithasddysgedig.cymru/) – sy'n dweud: 'Cymdeithas Ddysgedig Cymru yw academi genedlaethol Cymru ar gyfer y celfyddydau a'r gwyddorau. Daw ein Cymrodoriaeth ag arbenigwyr at ei gilydd o bob maes academaidd a thu hwnt.'

Am 'mod i newydd ddechrau'r swydd, dyw hi ddim yn bosibl i ddweud yn union beth yw'r rôl. Dwi'n mynd i weithio i wneud rhaglen o weithgareddau sy'n helpu ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfaoedd ac yn y dyfodol. Felly, cafodd rhwydwaith ymchwilwyr ei greu ac nawr dyn ni eisiau datblygu'r cysylltiadau rhwng yr ymchwilwyr ledled Cymru. Mae'n bwysig creu cyfleoedd i bobl gyfarfod a dysgu gan bobl sy ddim yn gweithio yn yr un maes. Pan fydd pobl o feysydd gwahanol yn cwrdd gyda'i gilydd, maen nhw'n gallu dod o hyd i ffyrdd newydd o edrych ar yr un broblem. Felly dyn ni eisiau i'r ymchwilwyr feddwl am ymchwil rhyngddisgyblaethol.

I orffen os dych chi'n nabod unrhyw un gyda diddordeb neu sy'n gweithio mewn adran ymchwil, a fasech chi'n fodlon dweud wrthyn nhw am waith CDdC ac maen nhw'n gallu ymuno â'n rhestr e-bostio i gael rhagor o wybodaeth. Diolch yn fawr.





***Clwb Gwylio Adar***

Pryd dyn ni'n cyfarfod? Bore Sadwrn cynta'r mis. Y lleoliad ers rhai misoedd yw Fferm y Fforest, Yr Eglwys Newydd. Daeth pump ynghyd fore Sadwrn, 7 Mai, sef Alun a'i wraig Sue am y tro cyntaf, Megan fy chwaer, Eirian yn arwain y daith a fi.

Byddwn yn cwrdd fore Sadwrn, 2 Gorffennaf, 10.00-11.30, hefyd yn Fferm y Fforest. Y bwriad yw dechrau am 10 yn hytrach na'r 10.30 arferol a gwneud taith gerdded i gefnogi elusen Eglwys Ebeneser 2022 sef elusen Tir Dewi. Awgrymir taliad o £5 y person. Yna tua 11.30 cawn goffi a chlonc yn un o gaffis Yr Eglwys Newydd – mae digon i'w cael yno!

***Gwyliau Mis Mai***

Pwy sy'n gwybod lle mae Morfa Nefyn? Cawson ni wythnos o wyliau yn y Tywod Arian – hen westy, mae'n debyg, ond nifer o fflatiau cyfforddus yno erbyn hyn. Un o'r adeiladau mwyaf yn Morfa Nefyn. a dweud y gwir. A dyn ni wedi llwyddo i gael yr un fflat ar gyfer wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol 2023, rhai milltiroedd i ffwrdd o Foduan ar y ffordd i Bwllheli. Dim rhagor o COVID gobeithio!

Cawson ni amser gwych ac un o'r uchafbwyntiau oedd treulio sawl awr ym mhentref poblogaidd Abersoch. Erioed wedi bod yno o'r blaen! Nid yw Canolfan Iaith Nant Gwrtheyrn yn bell o Forfa Nefyn felly fore Llun, 23 Mai, draw â ni am ymweliad arall. Aeth Eirian i lawr i'r traeth i wylio adar ac es i i chwilio am siaradwyr Cymraeg newydd a thiwtoriaid. Des i ar draws Bethan Gwanas ac Eurig Davies pan oedd hi'n hanner amser. Roedd Eirian a fi eisoes wedi mwynhau coffi a danteithion yng nghaffi Meinir.

Fel mae'n digwydd, gwerthwyd llai o gopïau mis Ebrill nag arfer yn y siopau, felly es i â chyflenwad lan i Ynys Môn a Morfa Nefyn. Gadewais gopïau gydag unigolion gwahanol ym Mhorthaethwy, Penysarn, Cemaes, Nant Gwrtheyrn ac Abersoch.

Fel y gwelwch yn y llun, des i ar draws dau offeiriad gyda'r Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Bangor, mewn caffi yn Stryd Fawr Cemaes, Ynys Môn. Ydych chi'n eu hadnabod? Mae un yn wraig i Archesgob newydd yr Eglwys yng Nghymru. Mae gŵr y llall hefyd yn offeiriad yn ardal Llandudno. A dweud y gwir tybiaf fod y pedwar yn siaradwyr Cymraeg newydd neu ar un adeg yn ddysgwyr.

Hyfrydwch yn wir oedd ymuno â Llwybr Arfordir Cymru sawl gwaith a cherdded rhai milltiroedd. Ar ein taith fore Sadwrn draw yn Aberdaron pwy welon ni ond un o leisiau cyfarwydd boreol Radio Cymru. Ydych chi'n gwrando rhwng 9 ac 11 ar ddydd Llun i Iau? Pwy sy'n cyflwyno? Braf cael gair bach gyda'r darlledwr radio ac weithiau teledu, Aled Hughes.

# Ysgol Plasmawr

### *Dawnsio*




Mae hi wedi bod yn dymor prysur iawn i'r adran Addysg Gorfforol, yn enwedig yr ochr greadigol. Erbyn heddiw, mae 70 o ferched yn dawnsio yn wythnosol o dan adain Miss Owen a'r Criw Hŷn. Maen nhw'n ymarfer yn galed bob nos Wener ac wedi cael llwyddiant mewn sawl cystadleuaeth. Mae'r misoedd diwethaf wedi tywys y criw i sawl cystadleuaeth mewn sawl lleoliad megis y Barri, Gerddi Sophia, Essex a Chasnewydd.

Cystadleuaeth cynta'r flwyddyn oedd 'Can You Dance' yn Essex. Unwaith eto, Plasmawr oedd yr unig ysgol addysgiadol a fynychodd yng nghanol cannoedd o blant o ysgolion dawns.  Ni lwyddodd y tîm i ennill lle yn y rownd terfynol ond cafwyd gwahoddiad i'r 'CYD Games' yn Lerpwl ym mis Mai.

Cystadlu yn 'All Dance Wales Festival' yn Ystafelloedd Paget ym Mhenarth wedyn.

Roedd yn gystadleuaeth agored i ysgolion ddawns ac yn cael ei ffilmio'n broffesiynol. Llwyddiant gafodd pawb gan gynnwys ennill y teitlau 'Most Entertaining' a 'Best Overall' mewn sawl cystadleuaeth.

Nesaf, 'UDoIt' sef Pencampwriaethau Ysgolion Cymru yng Ngerddi Sophia. Cafodd pawb y siawns i gystadlu – PlasMelyn, PlasOren, y Criw Hŷn, y Sgwad Cystadleuol a'r grwp bach. Roedd llwyddiant mawr yn y gystadleuaeth yma gan ennill safle cyntaf ddwywaith, yr ail safle unwaith a'r trydedd safle ddwywaith. O ganlyniad, rydyn ni wedi llwyddo mynd drwodd i Bencampwriaethau Prydain yn Coventry ddechrau Gorffennaf.

Y gystadleuaeth nesaf ddaeth oedd Eisteddfod yr Urdd. Roedd PlasMelyn, PlasOren, y Criw Hŷn ac Amlgyfrwng yn cystadlu, ac enillodd Amlgyfrwng, PlasMelyn a'r Criw Hŷn. Ymlaen i'r Eisteddfod Genedlaethol!

Y gystadleuaeth olaf ddaeth oedd DC12UK yn yr ICC Arena.  Plasmawr oedd yr unig ysgol addysgiadol oedd yn cystadlu a braf oedd cael dweud ein bod ni wedi cael 'clean sweep!' – safle cyntaf ym mhopeth a PhlasOren yn ail i BlasMelyn. Diwrnod hollol wych a phrofiad hyd yn oed gwell! Rydym ni'n gobeithio gorffen y flwyddyn gyda sioe ddawns cyntaf Plasmawr.

### *Gymnasteg*



Mae hi wedi bod yn gyfnod prysur i'r criw gymnasteg. Rydym wedi cystadlu mewn sawl categori gan gynnwys llofnaid a thymbl, llawr a llofnaid, Milano Trio ac acro. Cawson lwyddiant yn y tymbl a llofnaid wrth i Nel Lewis, Mia-Lou Carter a Nia Holmes gael eu gwahodd i fod yn rhan o dîm Caerdydd a'r Fro ym Mhencampwriaethau Cymru. Daeth criw CA3 yn ail yn y gystadleuaeth llofnaid a llawr ac yno yn Milano daeth y criw yn drydydd.  Ar gyfer yr acro, ail ddaeth y criw ym Mhencampwriaethau Cymru wrth gystadlu yn y gystadleuaeth am y tro cyntaf!  Er hyn, cawsom ein gwahodd i gystadlu ym Mhencampwriaethau Prydain yn Stoke ym Mis Ebrill a pherfformiodd y criw yn wych. Doedd dim canlyniad ond unwaith eto, dyma athrawes sy'n falch iawn o'r dawnswyr!



### *Pêl-droed*

Er, yn y diwedd, torcalonnus oedd hi i'n timau pêl-droed eleni, mae gennym lawer i ymfalchïo ynddi o ran y bêl-droed yn Plasmawr. Am y tro cyntaf eleni buom yn ymarfer yn y bore ac roedd yn wych gweld cynifer o'n disgyblion yn ymarfer cyn ysgol drwy'r Gaeaf.

Un o brif lwyddiannau eleni oedd datblygiad ein harlwy i ferched. Bellach mae merched yn ymarfer yn rheolaidd ac mae ein timau wedi profi cryn lwyddiant. Yng nghystadleuaeth Caerdydd a'r Fro llwyddodd timau blwyddyn 7 ac 8 fynd drwodd i'r rowndiau gyn-derfynol a llwyddodd tîm Merched B blwyddyn 8 ennill eu cwpan. Gwelwyd rhediad hir yng nghwpan Cymru



*Tim merched 'B' blwyddyn 8 yn dathlu!*



*Tim Bechgyn blwyddyn 8 yn edrych yn ddigalon ar ol colli i Ysgol Greenhill ar giciau o'r smotyn.*

gan y merched. Ar ôl ennill chwech gem wynebon nhw Ysgol y Preseli yn y rownd gyn-derfynol. Gyda'r sgôr yn 1-1 yn yr eiliadau olaf, dyma chwaraewr o Preseli yn sgorio chwip o gôl i'n curo.

Llwyddodd tîm bechgyn blwyddyn 8 fynd gam ymhellach drwy guro Penarlâg yn y Drenewydd i ennill ein lle yn rownd derfynol cwpan Cymru. Ar noson wlyb ym mis Mai yn Ocean Park Arena, Greenhill o Ddinbych y Pysgod oedd y gwrthwynebwyr. Yn anffodus colli oedd ein hanes. Er gwaethaf y siom ar ddiwedd tymor rydym yn ymfalchïo yn yr hyn mae ein bechgyn a merched wedi llwyddo i gyflawni eleni.



Rydym hefyd yn ymfalchïo yn llwyddiant unigol nifer o'n disgyblion. Ar lefel sir mae Rhys Jenkins (9) Dafydd Ball (10) ac Arwen Williams (10) wedi ennill gwobrau unigol ac rydym yn dymuno pob lwc i Daniel Watts wrth iddo ddechrau ar ei yrfa pêl-droed gydag Abertawe. Mae eisoes wedi chwarae i dîm dan 17 Cymru eleni. Ac ynghanol mis Mai fe wnaeth dwy o ferched yr ysgol Nia ac Arwen ennill capiau i dim dan 16 ysgolion Cymru yn erbyn Lloegr. Llongyfarchiadau!

***Nia ac Arwen wedi iddynt chwarae i dîm ysgolion merched Cymru yn erbyn ysgolion Lloegr***

# Ysgol Gwaelod y Garth

Diwedd mis Mai daeth y Prif Weinidog Mark Drakeford MS i agoriad swyddogol ein pod STEM "Agored". Mae'r pod STEM yn ofod a ddyluniwyd gydag adeiladwyr a chan y plant, ar gyfer astudiaethau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM).

Adeiladwyd y POD gan blant yr ysgol a CAUKIN Studio dros y misoedd diwethaf, gyda chefnogaeth ariannol Ford Bridgend, fel rhan o'u prosiect gwaddol. Roeddem fel ysgol yn awyddus i adeiladu'r POD fel estyniad naturiol o adeiladau'r ysgol yng nghysgod Mynydd y Garth er mwyn galluogi astudiaethau STEM mewn cynefin naturiol.

Fel prif ddefnyddwyr y POD, mae'r plant wedi chwarae rhan ganolog nid yn unig yn nyluniad y POD ond hefyd yn y gwaith adeiladu! Mae'r plant yn falch iawn ohono ac yn edrych ymlaen yn eiddgar ar gyfer y gwersi cyntaf ddechrau'r haf.

Mae CAUKIN Studio wedi sicrhau mai llais y plant sydd wedi llywio'r prosiect ac o ganlyniad maen nhw'n teimlo balchder a pherchnogaeth lwyr o'r gofod.

Dyma'r linc i'n fideo sy'n amlinellu ein taith. https://drive.google.com/file/d/132lwK15rFyKsUaW4_OUSodMX0wL6mwrl/view?usp=sharing



## Daw hyfryd fis Mehefin…
## â digon o brysurdeb i'r Brifddinas!

Wedi llwyddiant Gŵyl Fach y Fro, ymlaen â ni i Tafwyl! Cynhelir yr Ŵyl dros ddeuddydd yng Nghastell Caerdydd (18-19 Mehefin) ond cyn hynny, cewch gyfle i fwynhau cyfres o ddigwyddiadau amrywiol yn y Ffrinj.

Ymhlith y gweithgareddau i blant iau mae gweithdy gwyddoniaeth, gweithdy crefft a sesiwn Sgwad Sgwennu. I'r rhai yn eu harddegau, bydd amryw o sesiynau diddorol gan gynnwys gweithdy cerddoriaeth, gweithdy animeiddio a gweithdai ffasiwn ar y cyd gyda Phrifysgol De Cymru.

I'r oedolion, mae arlwy'r Ffrinj yn cynnwys taith ddiwylliannol o gwmpas Parc Cathays a Pharc Bute yng nghwmni Dr Dylan Foster Evans a Dr Gethin Matthews (12 Mehefin); perfformiad theatr gan Dirty Protest (13 Mehefin); Helfa Drysor Carnhuanawc (15 Mehefin) a Noson Lansio 'Cymry o Fri' gan Jon Gower (15 Mehefin). Ewch i'r wefan i weld amserlen yr holl ddigwyddiadau: tafwyl.org

Ar benwythnos yr Ŵyl, dewch i Gastell Caerdydd i glywed Sŵnami, Yws Gwynedd, Kizzy Crawford, Tara Bandito, Gareth Bonello ac Adwaith (i enwi dim ond rhai!) yn perfformio ar lwyfan. Ddydd Sadwrn, beth am fynd i weld perfformiad o 'Clera' gan gwmni Theatr Arad Goch neu Sesiwn Gomedi 'TaHAHAHAfwyl' yng nghwmni Elis James ac eraill? Mewn sesiwn ddifyr arall, bydd Beca Lyne-Pirkis yn sgwrsio â Daniel Glyn am ryseitiau, atgofion a sut mae bwyd yn effeithio ar ein bywydau bob dydd.







Ymhlith uchafbwyntiau dydd Sul, mae'r perfformiad dawns gyfoes 'Qwerin (bach)'; sgwrs yng nghwmni Gareth Bonello am ei brofiadau'n cyfansoddi yng nghwmni pobl y Khasi o ogledd ddwyrain India, a sesiwn 'Arwyr, Anffawd a Munudau Mawr y Maes Chwarae' yng nghwmni'r gohebydd chwaraeon Lowri Roberts a'r sylwebydd Alun Wyn Bevan.

Yn ogystal â Tafwyl a'r Ffrinj, mae nifer o ddigwyddiadau cyffrous eraill ar y gweill gan y Mentrau. Mae Menter Iaith Bro Morgannwg yn cydweithio â'r cyngor sir a Dysgu Cymraeg y Fro i gynnal dosbarthiadau coginio yn Ysgol St Cyres, Penarth, ddydd Sadwrn, 11 Mehefin. Bydd sesiwn Pilates nos Fawrth, 21 Mehefin, hefyd yn St Cyres, a chyfle i ddysgu chwarae'r ukulele yng nghwmni Mei Gwynedd yn y Barri mewn cwrs tair wythnos o hyd ddechrau Gorffennaf. Mae pob un o'r gweithgareddau hyn yn rhad ac am ddim.

Ymhlith uchafbwyntiau eraill mis Mehefin, mae 'Cwis Mawr' (23 Mehefin); 'Sgwrs y Mis' (27 Mehefin) yng nghwmni Dr Jonathan Morris o Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd; taith gerdded ym Mhenarth (27 Mehefin); a thaith fws i'r Ardd Fotaneg i gwrdd ag Adam yn yr Ardd (30 Mehefin). Cofiwch archebu'ch sedd yn brydlon!

Am fwy o wybodaeth:
Gwefan: mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.cymru
Facebook: @m.caerdydd / @MIBroMorgannwg
Instagram: https://www.instagram.com/mentercaerdydd/
E-bost / post@mentercaerdydd.cymru
Ffôn: 029 2068 9888